



Atebion i'r cwestiynau enghreifftiol

Thema 1

Tudalen 10

1 Amlinellwch arweddion dynol a ffisegol tirwedd nodedig rydych chi wedi'i hastudio. [4]

| | |
|--|---|
| <p><i>Mae'r blwch hwn yn cynnwys y sail resymegol: mae'n esbonio'r egwyddorion sy'n rhaid eu cymhwyso wrth farcio pob is-gwestiwn. Rhaid i'r arholwr ddefnyddio'r sail resymegol hon wrth gymhwyso'r cynllun marcio i'r ymateb</i></p> | <p><i>Mae'r blwch hwn yn cynnwys ymatebion disgwyliedig yr ymgeiswyr ar gyfer marcio ar sail pwyntiau. I rai is-gwestiynau, fel y rhai sydd â chwestiwn caeedig, bydd y blwch hwn yn nodi'r unig ymateb sy'n dderbyniol. Yn achos is-gwestiynau mwy penagored, bydd y blwch hwn yn dangos nifer o ymatebion tebygol sy'n haeddu marciau. Gallai'r rhestr hon gael ei hymestyn yng nghynhadledd yr arholwyr ar ôl i'r gwir sgriptiau gael eu darllen. Yn achos cynlluniau marcio wedi'u bandio, mae'r blwch hwn yn rhoi awgrymiadau ar gyfer cynnwys</i></p> |
|--|---|

| | |
|--|---|
| <p>ail resymegol</p> <p>I gael marciau llawn, rhaid rhoi arweddion ffisegol ac arweddion dynol Dyfernir 1 marc ar gyfer pob arwedd a roddir</p> | <p>Atebion a ddisgwylir</p> <p>Bydd yr atebion a roddir yn dibynnu ar y dirwedd sy'n cael ei disgrifio. Gallwch ddisgwyl i'r atebion gynnwys disgrifiadau o ddaeareg, llystyfiant, ffyrdd o ddefnyddio tir, a phobl a diwylliant</p> |
|--|---|

Y dirwedd nodedig rwyf fi wedi ei hastudio yw Eryri. Mae tiffurfiau'r ardal hon wedi ffurfio o ganlyniad i rewlifoedd, felly mae llawer o ddyffrynnoedd siâp U, cribau a pheirannau. Mae'r llystyfiant yn cynnwys coedwigoedd collddail mawr a choed conwydd wedi'u plannu. Twristiaeth yw un o'r prif ddiwydiannau yn yr ardal heddiw, ond cyn hynny, roedd chwareli llechi'n ddiwydiant pwysig. Mae llawer o bobl yr ardal yn siarad Cymraeg. [4]

2 Beth yw safleoedd pot mêl a sut maen nhw'n gallu helpu i warchod tirweddau nodedig? [4]

| | |
|---|---|
| <p>Sail resymegol</p> <p>Rhowch 1 marc am y diffiniad cywir a 3 marc am sut maen nhw'n helpu i warchod tirweddau nodedig</p> | <p>Atebion a ddisgwylir</p> <p>Lle o ddiddordeb arbennig sy'n denu twristiaid [1] Mae twristiaid yn clystyru mewn un lle, sy'n caniatáu cadwraeth mewn ardaloedd eraill [1] Llai o sathru ar leoliadau eraill [1] Mwy o incwm i'r ardal leol i ddarparu arian ar gyfer cadwraeth [1]</p> |
|---|---|



Safleoedd pot mêl yw ardaloedd o fewn tirwedd sy'n denu llawer o bobl i ymweld â nhw. Gallai hyn fod oherwydd ffactorau dynol (er enghraifft, adeiladau hanesyddol) neu ffactorau ffisegol (er enghraifft, rhaedrau). Os yw twristiaid yn cael eu denu i un ardal, mae hyn yn golygu y bydd y difrod y byddan nhw'n ei achosi i'r dirwedd wedi'i ffocysu mewn un ardal. Felly, er y gallai erydiad ddigwydd yn yr ardal honno er enghraifft, mae'n golygu y gellir cynnal a gwarchod ardaloedd eraill. Mae fel aberthu un ardal er mwyn i rannau eraill o'r dirwedd nodedig oroesi.

Bydd twristiaeth yn dod ag arian i'r ardal leol, a gellir defnyddio hwn i warchod ac adfer rhannau o'r dirwedd. [4]

3 Ar gyfer tirwedd nodedig rydych chi wedi'i hastudio, trafodwch a yw effeithiau'r gweithgareddau dynol yn gadarnhaol neu'n negyddol yn bennaf. [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Dealltwriaeth fanwl o effeithiau gweithgareddau dynol ar y dirwedd. Ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol, a thystiolaeth o drafodaeth ac enghreifftio</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Dealltwriaeth fanwl o'r effeithiau dynol o fewn y dirwedd nodedig. Mae'r ateb yn anghybwys ac mae'r enghreifftio'n gyfyngedig</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Dealltwriaeth o effaith gweithgareddau dynol ar dirweddau a chyfeirio at effeithiau cadarnhaol neu negyddol</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Dealltwriaeth sylfaenol o rai o effeithiau gweithgareddau dynol ar dirweddau</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Bydd yr atebion yn dibynnu ar y dirwedd sy'n cael ei defnyddio</p> <p>Rhaid bod elfen o drafodaeth er mwyn cyrraedd Band 4 yn ogystal â chydwyso effeithiau cadarnhaol a negyddol</p> |

Mae gweithgareddau dynol yn effeithio ar dirwedd Eryri mewn llawer o ffyrdd. Mae'r ardal yn boblogaidd ymysg twristiaid, ac mae hyn yn dod â llawer o incwm i'r economi leol a fydd o fudd i bobl leol drwy greu swyddi. Fodd bynnag, bydd twristiaid hefyd yn achosi effeithiau negyddol fel erydiad ar lwybrau troed a sbwriel. Yn y gorffennol, roedd y diwydiant llechi'n dod â llawer o incwm i'r ardal hon ond gan fod y rhan fwyaf o'r chwareli bellach wedi cau, maen nhw wedi gadael creithiau ar y dirwedd ac mae'r ardaloedd o gwmpas y chwareli'n llawn pentyrrau o ddefnydd gwastraff. Fodd bynnag, weithiau cafodd y chwareli hyn eu defnyddio'n effeithiol, er enghraifft cafodd gorsaf trydan dŵr Dinorwig yn Llanberis, gogledd Cymru ei rhoi oddi mewn i hen chwarel. Mae hyn yn golygu nad yw'r orsaf drydan yn achosi llygredd gweledol ym Mharc Cenedlaethol Eryri gan fod holl 'gyfarpar a gweithfeydd' yr orsaf drydan y tu mewn i'r mynydd. Rwyf fi, felly, yn meddwl, er bod gweithgareddau dynol wedi newid y dirwedd naturiol mewn llawer o ffyrdd, a bod rhai o'r rhain yn negyddol, bod yr effaith gyffredinol yn gadarnhaol gan fod pobl yn sylweddoli eu bod yn dibynnu ar y dirwedd ar gyfer eu hincwm, ac felly y bydd cyfyngu ar unrhyw ddinistr yn beth buddiol iddynt. [8]



Tudalen 11

Ar gyfer tirwedd nodedig rydych chi wedi'i hastudio:

1 Nodwch sut mae'r dirwedd honno wedi cael ei difrodi oherwydd ymwelwyr. [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Rhowch 1 marc am bob math o ddifrod a roddir, hyd at uchafswm o 2 farc | Bydd yr ateb a roddir yn dibynnu ar y dirwedd nodedig sy'n cael ei disgrifio. Gallai'r mathau o atebion a roddir gynnwys: erydiad ar lwybrau troed [1], erydiad tirwedd [1], gallai llygredd aer ladd rhai mathau o lystyfiant [1], sbwriel [1] |

Y dirwedd nodedig rwyf fi wedi ei hastudio yw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae llawer o ymwelwyr yn dod i'r dirwedd hon i gerdded y mynyddoedd, felly mae erydiad ar lwybrau troed, neu dreulio llystyfiant, yn digwydd yn aml oherwydd yr holl gerddwyr sy'n sathru arnynt. Bydd ymwelwyr yn aml yn cael picnic yn y mynyddoedd ac felly weithiau maen nhw'n gallu gadael sbwriel sy'n llygredd gweledol ar y dirwedd neu'n gallu niweidio bywyd gwylt. [2]

2 Esboniwch pam mae'r difrod hwn wedi digwydd oherwydd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Rhowch farciau am naill ai un neu ddau reswm wedi'u datblygu. Peidiwch â rhoi marc am 'cynnydd yn nifer yr ymwelwyr' | Bydd yr ateb hwn yn dibynnu ar yr ateb i C1. Fodd bynnag, dyma'r mathau o atebion y gellid eu gweld: <ul style="list-style-type: none"> Mae cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ... yn arwain at ddefnyddio mwy o lwybrau troed [1], sy'n arwain at fwy o sathru ar lystyfiant [1], sy'n gallu lladd y llystyfiant [1], sy'n gadael y llwybr troed yn fwy tueddol o erydu [1] Mae cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ... yn arwain at lawer o draffig [1], mwy o lygredd aer [1], sy'n gallu lladd rhywogaethau mwy sensitif [1] a lleihau bioamrywiaeth [1] |

Y mwyaf o dwristiaid sy'n ymweld â lle, y mwyaf tebygol yw hi y bydd difrod yn digwydd. Er enghraifft, o fewn Bannau Brycheiniog, y mwyaf o gerddwyr sy'n dringo'r mynyddoedd, y mwyaf y caiff y llwybr troed ei erydu oherwydd sathru ac felly bydd y llystyfiant yn treulio i ffwrdd yn gyflymach ac yn ei chael yn anoddach tyfu'n ôl. Bydd hyn yn gwneud y llwybr troed yn dueddol o erydu ymhellach, gan fod llai o lystyfiant i'w amddiffyn. [4]



3 Disgrifiwch y ffyrdd mae'r dirwedd wedi cael ei hatgyweirio. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch 2 farc yr un am ddau ymateb sy'n haeddu marciau ac wedi'u disgrifio'n ddigonol | Bydd yr ateb a roddir yn dibynnu ar y dirwedd nodedig sy'n cael ei disgrifio. Gallai'r mathau o atebion a roddir gynnwys: Mae atgyweirio llwybrau troed [1] yn arwain at arwyneb mwy gwydn [1] Meysydd parcio wedi'u marcio'n glir [1], sy'n golygu llai o barcio ar laswellt ar ymyl ffyrdd [1] |

Mae llwybrau troed Bannau Brycheiniog wedi cael eu hatgyweirio drwy gludo creigiau mawr mewn hofrennydd i ailadeiladu'r llwybrau. Mae hyn yna'n gwella eu gallu i wrthsefyll erydiad pellach. Hefyd, mae ffensys wedi cael eu codi mewn rhai ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol i atal ymwelwyr rhag cerdded yno er mwyn rhoi amser i'r llystyfiant dyfu'n ôl ac adsefydlu. [4]

Tudalen 14

Esboniwch ddwy ffordd wahanol gall rhaedrau ffurfio yng Nghymru. [6]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Band 3 (5–6 marc): Esboniad manwl o ddwy ffordd mae rhaedrau wedi ffurfio yng Nghymru | Mae disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at brosesau erydiad o fewn dalgylch afon yn creu rhaedrau oherwydd creigiau caled a meddal |
| Band 2 (3–4 marc): Esboniad o ddwy ffordd o ffurfio rhaedrau, ond yn anghybwys. Neu esboniad da o un dull ond y dull arall yn absennol | Mae disgwyl hefyd i ymgeiswyr gyfeirio at grognentydd sy'n cael eu creu oherwydd rhewlifiant lle mae rhaedrau'n bresennol nawr |
| Band 1 (1–2 farc): Cyfeirio'n sylfaenol at sut mae rhaedrau'n ffurfio | Byddai disgwyl i atebion band 3 gyfeirio at y prosesau dan sylw |
| Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol | |

Mae rhaedrau fel arfer yn ffurfio oherwydd daeareg. Pan mae afon yn llifo at graig feddal, mae'n gallu erydu hon yn gyflymach na'r graig galed oedd oddi tani cynt. Felly, mae gris yn ffurfio. Mae'r gostyngiad yn mynd yn fwy ac yn fwy wrth i weithredoedd hydrologig a sgrafellu erydu'r graig feddal. Mae'r graig feddal o dan y rhaeadr yn cael ei herydu ymhellach, ac yn y pen draw mae'r graig galed mae'r dŵr yn llifo drosti'n troi'n ordo ac yn syrthio. Yna, mae'r rhaeadr yn symud yn bellach i fyny'r afon.

Mae rhewlifiant hefyd wedi ffurfio rhaedrau yng Nghymru. Mae rhewlifiant wedi newid llawer o dirwedd Cymru. Yn aml, mae rhewlifoedd llai'n llifo i mewn i rewlifoedd mawr. Does gan y rhewlifoedd cyfrannol llai ddim y pŵer i erydu mor ddwfn â'r prif rewlif, felly mae'r dyffryn yn aml ar lefel uwch na'r prif ddyffryn. Felly, cyn gynted â bod yr iâ wedi toddi, bydd afon sy'n llifo drwy'r dyffryn cyfrannol yn 'syrthio' i mewn i'r prif ddyffryn oherwydd y gwahaniaeth uchder. [6]



Tudalen 15

1 Rhowch ddau ffactor sy'n dylanwadu ar ba ddull cludiant fydd yn symud llwyth gwely'r afon. [2]


| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch 1 marc am bob ateb sy'n haeddu marc, hyd at 2 farc | Buanedd y llif/cyflymder [1] Maint y defnydd sy'n cael ei symud [1] |

Dau ffactor sy'n dylanwadu ar ba ddull cludiant fydd afon yn ei ddefnyddio i symud ei ddefnydd yw pa mor gyflym mae'r afon yn llifo a maint y defnydd sy'n cael ei symud. [2]

2 Disgrifiwch sut mae dyffryn siâp V yn cael ei ffurfio. Defnyddiwch ddiagram i helpu eich ateb. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| <p>Band 2 (3–4 marc): Disgrifiad manwl o sut mae dyffryn siâp V yn cael ei ffurfio gan gyfeirio at y prosesau dan sylw. Bydd diagram wedi'i anodi'n briodol i'w weld</p> <p>Band 1 (1–2 farc): Disgrifiad sylfaenol o sut mae dyffryn siâp V yn cael ei ffurfio. Prin y cyfeirir at brosesau. Bydd diagram yn sylfaenol neu'n absennol</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Dylai'r disgrifiad gynnwys cyfeiriad at erydiad fertigol yn y cwrs uchaf yn torri'n ddyfnach i mewn i'r dirwedd. Prosesau hindreuliad yn digwydd ar ochrau'r dyffryn sy'n agor y llethrau i greu siâp V</p> <p>Rhaid cynnwys diagram i gyrraedd Band 2</p> |

Mae dyffryn siâp V i'w weld yng nghwrs uchaf afon. Wrth i'r nant fach lifo i lawr y dirwedd serth, mae'r prosesau erydiad fel arfer yn digwydd ar ffurf erydiad fertigol yn hytrach nag erydiad llorweddol. Mae hyn, felly, yn arwain at ddyfnhau sianel yr afon ar y dirwedd. Prosesau gweithredu hydrologig, sgrafellu a hydoddi sy'n achosi'r erydiad fertigol hwn. Mae ochrau'r afon yn fertigol ar y pwynt hwn. Mae prosesau hindreuliad fel rhewi a dadmer yn erydu ochrau'r dyffryn ac felly mae'r dyffryn yn ffurfio siâp V. [4]





3 'Prosesau erydiad yw'r ffactor pwysicaf wrth ffurfio tirffurfiau afonydd.' I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad hwn? [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth fanwl am brosesau erydiad a sut maen nhw'n cyfrannu at ffurfio tirffurfiau afonydd. Ystyriaeth dda o ffactorau eraill a'u pwysigrwydd</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth fanwl am brosesau erydiad a sut maen nhw'n cyfrannu at ffurfio tirffurfiau afonydd. Rhywfaint o ystyriaeth o ffactorau eraill neu eu pwysigrwydd</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth am brosesau erydiad a sut maen nhw'n cyfrannu at ffurfio tirffurfiau afonydd. Diffyg ystyriaeth o ffactorau eraill neu eu pwysigrwydd</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth sylfaenol am brosesau erydiad sy'n ymwneud â ffurfio tirffurfiau afonydd</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Byddai disgwyl i ymgeiswyr ddisgrifio dylanwad prosesau fel sgrafellu, gweithredu hydrologig a hydoddi ar ffurfio tirffurfiau afonydd fel rhaeadrau, dyffrynnoedd siâp V, ystumiau afonydd ac ati</p> <p>Yn y bandiau uwch, dylai ymgeiswyr gydbwysu'r drafodaeth hon ag ystyriaeth o sut mae prosesau erydiad yn dylanwadu ar dirffurfiau o gymharu â ffactorau eraill megis daeareg, dylanwad dynol, hinsawdd ac ati. Rhaid ystyried 'i ba raddau' er mwyn cyrraedd Band 4</p> |

Mae prosesau erydiad yn chwarae rhan bwysig wrth ffurfio llawer o dirffurfiau afonydd fel rhaeadrau, dyffrynnoedd siâp V ac ystumiau afonydd. Mae prosesau fel gweithredu hydrologig, sgrafellu a hydoddi'n erydu sianel yr afon gan ffurfio arweddion nodedig. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill yn bwysig i ffurfio rhai tirffurfiau afonydd. Er enghraifft, nid dim ond erydiad sy'n ffurfio ystumiau afonydd, ond dyddodiad hefyd (erydiad ar y lan allanol a dyddodiad ar y lan fewnol). Felly, mae'r ddwy broses yn hollbwysig i ffurfio ystumiau afonydd. Hefyd, fyddai rhaeadrau ddim yn ffurfio oni bai bod y daeareg yn ffafriol – mae angen creigiau caled a meddal wrth ymyl ei gilydd er mwyn i wahanol gyfraddau erydu allu digwydd.

Ar y cyfan, rwy'n meddwl bod gan brosesau erydiad ran fawr i'w chwarae wrth ffurfio tirffurfiau afonydd, ond yn aml mae angen ffactorau eraill hefyd fel daeareg, hindreuliad neu ddyddodiad. [8]



Tudalen 20

Ar gyfer amgylchedd arfordirol penodol yn y DU, esboniwch y prosesau sydd wedi creu'r tirffurfiau sy'n benodol i'r amgylchedd hwnnw. [6]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| <p>Band 3 (5–6 marc): Esboniad manwl o'r prosesau sy'n creu tirffurfiau arfordirol. Gwneud cysylltiadau clir rhwng y broses a sut mae hyn yn arwain at y tirffurf sydd i'w weld</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Esboniad o'r prosesau a'u perthynas â thirffurfiau arfordirol. Rhai cysylltiadau rhwng y broses a'r tirffurf</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Esboniad sylfaenol o'r prosesau ar y morlin a chysylltiad sylfaenol â thirffurfiau</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Mae disgwyl i ymgeiswyr esbonio sut mae prosesau arfordirol fel gweithredu hydrolog, sgrafellu, drifft y glannau a dyddodi yn cyfrannu at ffurfio tirffurfiau megis bwâu môr, ogofâu, twyni tywod, tafodau ac ati</p> <p>Gellir rhoi marciau hefyd am brosesau eraill sy'n digwydd ar y morlin megis hindreuliad. Fodd bynnag, gellir rhoi marciau llawn heb sôn am y rhain</p> |

Rwyf fi wedi astudio morlin Bro Morgannwg yn ne Cymru, yn benodol traeth Llanilltud Fawr. Ar y traeth hwn, mae clogwyni a llyfndir tonnau. Mae llyfndir tonnau yn ffurfio pan mae clogwyn yn cael ei erydu. Mae grym y tonnau'n taro'r clogwyn (gweithred hydrolog), ynghyd â thaflu'r cerrig mân at waelod y clogwyn (sgrafellu), yn creu rhic tonnau yng ngwaelod y clogwyn. Wrth i'r broses hon barhau, mae'r clogwyn uwchben yn mynd yn ansefydlog ac yn dymchwel, gan symud llinell y clogwyn yn bellach i mewn i'r tir. Bydd y defnydd o'r clogwyn yna'n cael ei symud gan y môr, ac wrth wneud hyn bydd sgrafelliad yn llyfnhau wyneb y llyfndir tonnau a gafodd ei adael ar ôl, gan greu llyfndir tonnau. [6]

Tudalen 23

1 Cymharwch ddylanwad dau fath gwahanol o strwythurau daearegol ar siâp morlinau. [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth fanwl am ddau fath o ddaeareg a sut maen nhw'n effeithio ar y morlin. Cymhariaeth glir</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth fanwl am ddau fath o ddaeareg a sut maen nhw'n effeithio ar y morlin. Cymhariaeth wan neu wedi'i hawgrymu</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth am ddau fath o ddaeareg a sut maen nhw'n effeithio ar y morlin. Efallai y bydd y gymhariaeth wedi'i hawgrymu, ac nid yn glir</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth sylfaenol am sut mae daeareg yn effeithio ar forlinau. Dim cymhariaeth i'w gweld.</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Efallai y bydd ymgeiswyr yn cyfeirio at wahanol fathau o ddefnydd craig, adeiledd craig, morlinau cydgordioli ac anghytgordioli</p> <p>Ar gyfer Band 4, dylid gwneud cysylltiad clir rhwng sut mae'r ddaeareg yn dylanwadu ar y tirffurfiau sy'n bodoli, gyda chymhariaeth glir</p> |



Y ddwy wahanol amod ddaearegol rwyf yn mynd i edrych arnynt yw morlin anghyrgordioliol a morlin cydgyrdioliol. Mae morlin anghyrgordioliol yn golygu bod haenau o wahanol fathau o greigiau ar ongl sgwâr i'r môr. Mae hyn, felly, yn golygu bod y gwahanol fathau o greigiau'n cael eu herydu gan y môr. Os yw'r mathau o greigiau'n erydu ar wahanol gyfraddau, er enghraifft siâl a chalchfaen, bydd hyn yn creu cyfres o faeau a phenrhynion i adlewyrchu'r gwahanol gyfraddau erydu. Ar y llaw arall, ar forlin cydgyrdioliol, mae'r gwahanol fathau o greigiau wedi'u gosod yn baralel i'r môr, felly dim ond y graig allanol sy'n cael ei herydu gan y môr. Bydd y graig yn erydu ar un gyfradd, felly mae'n fwy tebygol na fydd penrhynion a baeau'n ffurfio. [7]

2 Esboniwch pam mae'r hinsawdd yn dylanwadu ar gyfradd erydiad yn nhirwedd afonydd. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch hyd at 3 marc am bob pwynt dilys. I gael marciau llawn, dylid cyfeirio at dymheredd a hefyd at lawiad | Bydd mwy o lawiad [1] yn golygu y bydd mwy o ddŵr yn y sianel [1], a bydd felly'n cynyddu erydiad [1] Mae tymheredd uwch [1] yn cynyddu cyfradd anweddu felly bydd llai o ddŵr yn y sianel [1], a bydd felly'n lleihau erydiad [1] Derbyniwch y gwrthwyneb i'r naill neu'r llall o'r uchod |

Y mwyaf trwm yw'r glawiad i mewn i ddalgylch afon, y cyflymaf bydd y dŵr yn cyrraedd yr afon, gan achosi arllwysiad mwy. Yn yr amodau hyn, bydd mwy o erydiad yn digwydd gan fod mwy o ddŵr ac egni yn yr afon. Ar y llaw arall, os yw'r tymheredd yn uchel bydd mwy o anweddu'n digwydd o'r tu mewn i'r dalgylch afon a'r afon ei hun. Bydd hyn yn golygu y bydd llai o ddŵr yn y sianel, ac felly'n lleihau'r gyfradd erydiad. [4]

3 'Bydd ymyrraeth ddynol ar y morlin bob amser yn arwain at ganlyniadau anfwriadol.' I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad hwn? [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth fanwl am ganlyniadau anfwriadol ymyrraeth ddynol ar y morlin. Ystyried yn dda i ba raddau mae'n cytuno</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth fanwl am effeithiau pobl ar y morlin, sy'n anfwriadol. Dim sôn am i ba raddau mae'n cytuno</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth am effeithiau pobl ar y morlin, sy'n fwriadol ac yn anfwriadol</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth sylfaenol am effeithiau pobl ar y morlin, sy'n fwriadol ac yn anfwriadol</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Mae disgwyl i'r ymgeiswyr drafod y materion canlynol yn eu hatebion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • erydu arfordirol oherwydd technegau rheoli mewn lleoliadau eraill • erydu twyni oherwydd sathru <p>I gyrraedd Band 4, dylai'r ymgeisydd ystyried i ba raddau mae'n cytuno fel mae'r cwestiwn yn ei ofyn</p> |



Mae pobl yn cael effaith fawr ar y morlin. Weithiau mae hyn yn fwriadol, fel adeiladu morglawdd, ond mae hefyd yn gallu bod yn anfwriadol lle bydd amddiffyn un darn o'r morlin yn achosi erydiad mewn mannau eraill. Er enghraifft, os caiff argorau eu gosod ar hyd traeth i atal drifft y glannau, effaith hyn fydd cadw'r tywod ar y traeth hwnnw a'i atal rhag cael ei symud oddi ar y traeth. Fodd bynnag, yn bellach ar hyd y morlin lle byddai'r tywod hwn wedi mynd cyn hynny, byddai llai o dywod nawr yn yr ardal hon ac felly byddai'n fwy agored i niwed gan erydiad y clogwyni, er enghraifft. Gall hyn hefyd ddigwydd wrth adeiladu morglawdd oherwydd bydd yn atal erydiad rhag digwydd ac felly eto'n golygu y bydd llai o waddod ar gael yn bellach i lawr y morlin. Felly, byddwn i'n cytuno â'r gosodiad hwn oherwydd pryd bynnag mae pobl yn ymyrryd ag unrhyw broses naturiol, mae bob amser yn achosi sgil effeithiau mewn mannau eraill. [8]

Tudalen 25

1 Enwch ddwy storfa a dau lif mewn dalgylch afon. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch 1 marc am enwi hyd at ddwy storfa yn gywir a dau farc arall am enwi dau lif yn gywir | Storfeydd: storio mewn llyn/pwll/arwyneb [1], llystyfiant [1], storfa dŵr daear [1], storfa pridd [1], môr/cefnfor [1] Llif: anweddiad [1], trydarthiad [1], llif sianel [1], trwylif [1], llif dŵr daear [1] |

Dwy storfa yn y dalgylch afon yw storfa'r pridd a storfa'r arwyneb, a dau fath o lif yw llif trostir ac anweddiad. [4]

2 Esboniwch yr effaith ar weddill dalgylch afon petai ardal fawr o goed yn cael ei thorri. [6]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth fanwl am sut mae datgoedwigo'n effeithio ar symudiad dŵr mewn dalgylch afon | Bydd disgwyl i ymgeiswyr esbonio sut mae ataliad, ymdreiddiad, trylifiad a mewnlifiad dŵr yn lleihau pan gaiff coed eu tynnu o ddalgylch afon Ym Mand 3, dylai fod rhyw esboniad o'r prosesau ynghyd â sut mae'r rhain yn effeithio ar yr afon |
| Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth am sut mae datgoedwigo'n effeithio ar symudiad dŵr mewn dalgylch afon | |
| Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth sylfaenol am yr effeithiau – cysylltiad amwys rhwng diffyg coed a mwy o ddŵr mewn sianel afon | |
| Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol | |

Bydd unrhyw newidiadau sy'n digwydd mewn dalgylch afon yn effeithio ar symudiad dŵr drwy'r dalgylch i sianel yr afon. Mae coed yn cael effaith fawr ar symudiad dŵr. Pan mae hi'n bwrw glaw, bydd coed mawr yn atal y glawiad ac felly mae hyn yn arwain at storio ar arwyneb dail a llif coesyndau. Effaith hyn yw arafu symudiad dŵr i'r sianel, felly mae'n lleihau'r arllwysiad brig. Bydd coed hefyd yn sugno dŵr o'r pridd ac felly eto'n lleihau faint o ddŵr sydd yn y system. Byddai torri coed yn cael gwared â'r nodweddion hyn i gyd. Byddai gan y glawiad fwy o rym erydu ar y pridd, mwy o lif trostir ac felly oediad amser byrrach ac arllwysiad brig uwch yn yr afon. [6]



Tudalen 26

1 Rhestrwch dri ffactor fyddai'n gallu effeithio ar lifogydd yn y DU. [3]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch 1 marc am bob ffactor sy'n haeddu marc, hyd at uchafswm o 3 marc | Sut mae'r tir yn cael ei ddefnyddio [1], gorchudd llystyfiant [1], maint dalgylch afon [1], trefoli [1], hinsawdd [1], daeareg [1] |

Tri ffactor sy'n effeithio ar lifogydd yn y DU yw math o lawiad, math o llystyfiant a sut mae bodau dynol yn defnyddio dalgylch afon. [3]

2 Disgrifiwch sut bydd creigiau mandyllog yn dylanwadu ar siâp hydrograff. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|-------------------------------------|---|
| Rhowch 1 marc am bob gosodiad dilys | Bydd creigiau mandyllog yn caniatáu mwy o drylifiad [1] Bydd llai o ddŵr yn sianel yr afon [1] Bydd gan yr hydrograff oediad amser hirach [1] Arllwysiad brig isel [1] |

Mae gan greigiau mandyllog fwy o 'dyllau' yn y graig, felly maen nhw'n gallu dal dŵr. Pan mae hi'n bwrw glaw mewn dalgylch afon sy'n cynnwys creigiau mandyllog, mae'r creigiau'n amsugno dŵr ac felly mae llai o ddŵr yn mynd i'r afon. Mae hyn yn gwneud yr oediad amser yn hirach gan ei bod hi'n cymryd mwy o amser i'r dŵr symud drwy'r tir i gyrraedd y sianel, a hefyd bydd yr arllwysiad brig yn is a bydd yn cymryd cyfnod mwy amrywiol i'r dŵr gyrraedd y sianel. [4]

3 'Trefoli yw'r ffactor pwysicaf sy'n achosi llifogydd yn y DU heddiw.' I ba raddau rydych chi'n credu bod hyn yn wir? [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth fanwl am sut mae trefoli'n achosi llifogydd. Hefyd, ystyried beth arall sy'n achosi llifogydd ac i ba raddau.</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth fanwl am sut mae trefoli'n achosi llifogydd. Rhywfaint o ystyriaeth i beth arall sy'n achosi llifogydd. Dim sôn am i ba raddau mae'n cytuno</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Rhywfaint o wybodaeth am sut mae trefoli'n achosi llifogydd. Dim esboniad llawn</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth sylfaenol am sut mae trefoli'n achosi llifogydd. Ddim yn enwi prosesau</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Bydd disgwyl i ymgeiswyr sôn am broses ymdreiddiad a sut mae hyn yn lleihau ar ôl trefoli oherwydd y cynnydd mewn arwynebau anathraidd. Hefyd, mae angen cysylltiad â sut mae diffyg ymdreiddiad yn debygol o achosi llifogydd.</p> <p>Bydd ymgeiswyr yn y bandiau uwch hefyd yn trafod pa mor bwysig yw ffactorau eraill megis datgoedwigo, maint dalgylch afon ac yn y blaen, ac o fewn Band 4 byddant yn ystyried i ba raddau mae hynny'n wir.</p> |



Trefoli yw twf trefi a dinasoedd. Mae hyn yn cynnwys gorchuddio tir â tharmac neu goncrit – arwynebau anathraidd. Dydy'r arwynebau hyn ddim yn caniatáu ymdreiddiad ac felly mae hyn yn golygu bod mwy o ddŵr wedi'i storio ar yr arwyneb a mwy o lif trostir. Mae hyn yn ei dro'n golygu y bydd yr oediad amser yn fyrrach, y llif brig yn uwch a'r risg o lifogydd yn uwch. Wrth i fwy o drefoli ddigwydd, mae hyn yn dod yn ffactor pwysicach o ran llifogydd. Wrth i'r galw am dai gynyddu, mae'n debygol y bydd cyfradd trefoli hefyd yn cynyddu. Mae ffactorau pwysig eraill yn cynnwys y math o lystyfiant yn y dalgylch afon. Os yw dalgylch afon wedi'i orchuddio â choed collddail llydanddail, mae'n llai tebygol y bydd llifogydd yn digwydd oherwydd bydd mwy o ataliad ac ymdreiddiad yn digwydd o gymharu â dalgylch afon wedi'i orchuddio â gwair, er enghraifft. Hefyd, mae swm y glawiad yn bwysig oherwydd y mwyaf yw cyfaint y dŵr, y mwyaf yw'r siawns y bydd llifogydd yn digwydd. Felly, rwy'n cytuno â'r gosodiad yn rhannol oherwydd mae trefoli yn sicr yn cynyddu'r siawns o lifogydd. Fodd bynnag, rwy'n meddwl mai'r ffactor pwysicaf yw swm y glawiad: y mwyaf o lawiad sydd, y mwyaf yw'r siawns o lifogydd. [8]

Tudalen 27

Gwerthuswch effeithiolrwydd peirianeg feddal fel strategaeth ar gyfer rheoli gorlifdiroedd y DU yn y dyfodol. [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth fanwl am gostau a buddion peirianeg feddal fel ffordd o reoli gorlifdiroedd yng nghyd-destun y dyfodol. Gwerthusiad i'w weld | Dylai ymgeiswyr drafod dulliau fel creu parthau defnyddio tir, coedwigo ac ati. Gellir rhoi marciau llawn am sôn am un strategaeth yn unig |
| Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth fanwl am gostau a buddion peirianeg feddal fel ffordd o reoli gorlifdiroedd ond heb gyd-destun y dyfodol | I gyrraedd Band 4, dylid cyfeirio at gyd-destun y dyfodol a dylai'r gwerthuso fod yn glir |
| Band 2 (3–4 marc): Rhywfaint o wybodaeth am gostau a buddion peirianeg feddal fel ffordd o reoli gorlifdiroedd | |
| Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth sylfaenol am gostau neu fuddion peirianeg feddal fel ffordd o reoli gorlifdiroedd | |
| Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol | |

Peirianeg feddal yw'r dull rheoli llifogydd sy'n gweithio gyda'r amgylchedd yn hytrach na gosod pethau i atal llifogydd. Un enghraifft o beirianeg feddal yw coedwigo. Mae hyn yn golygu plannu coed i amsugno dŵr o'r dalgylch afon a hefyd fel rhwystr i ddŵr glaw. Mae hyn yn arafu symudiad dŵr drwy'r dalgylch afon. Mae creu parthau defnyddio tir yn fath arall o beirianeg feddal. Mae hyn yn golygu adeiladu'r adeiladau pwysicaf yn bellach oddi wrth y gorlifdir fel mai dim ond cnydau neu gaeau chwarae fydd yn cael eu boddi gan lifogydd. Buddion datrysiadau peirianeg feddal yw eu bod nhw fel arfer yn rhad ac yn gweithio gyda'r amgylchedd yn hytrach nag yn ei erbyn. Felly, maen nhw'n gallu naill ai helpu i leihau faint o ddŵr sy'n mynd i mewn i sianel yr afon ar unrhyw un adeg neu leihau effaith llifogydd. Fodd bynnag, yr anfanteision yw nad oes rhwystr ffisegol i atal unrhyw lifogydd, felly dydyn nhw ddim yn gallu rhoi sicrwydd na fydd llifogydd yn digwydd. Yn y dyfodol, gyda'r rhagfynegiad y bydd cynhesu byd-eang yn arwain at fwy o lawiad, efallai y bydd hi'n well defnyddio strategaethau peirianeg feddal a chaled i leihau effaith llifogydd. [8]



Thema 2

Tudalen 31

1 Diffiniwch y term 'gwrthdrefoli'. [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|-------------------------------------|---|
| Rhowch 1 marc am bob gosodiad cywir | Symudiad pobl o drefi a dinasoedd [1] i ardaloedd gwledig [1] |

Pan mae pobl yn symud o'r ddinas i gefn gwlad. [2]

2 Awgrymwch a disgrifiwch ddwy enghraifft o effeithiau economaidd gwrthdrefoli. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch 1 marc am yr effaith ac 1 marc am y disgrifiad ohoni | <p>Cynnydd mewn prisiau tai [1] oherwydd bod mwy o alw am dai mewn ardaloedd gwledig [1]</p> <p>Defnyddio llai o siopau pentref [1] oherwydd bod pobl yn siopa mewn archfarchnadoedd mawr yn y dinasoedd [1]</p> <p>Cynnydd yng nghost cludiant [1] oherwydd bod gan bobl bellter hirach i gymudo [1]</p> <p>Cyfleoedd busnes newydd mewn ardaloedd gwledig [1] oherwydd bod newydd-ddyfodiaid eisiau gwasanaethau newydd fel meithrinfeydd ac ati [1]</p> |

Un o effeithiau economaidd gwrthdrefoli yw cynnydd mewn prisiau tai. Wrth i fwy o bobl ag incwm da o swyddi mewn ardaloedd trefol symud i ardaloedd gwledig, mae mwy o alw am dai. Os yw'r galw am dai'n fwy na nifer y tai sydd ar gael, bydd prisiau tai'n cynyddu wrth i bobl gystadlu am y rhai sydd ar gael. Effaith bosibl arall yw newid i'r mathau o fusnesau a gwasanaethau sydd yn y pentref. Efallai y bydd siopau pentref yn cau oherwydd bod cymudwyr yn siopa mewn archfarchnadoedd mawr mewn ardaloedd trefol. Ond efallai y bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau eraill fel meithrinfa oherwydd bod mwy o deuluoedd ifanc yn symud i'r ardal. [4]

3 Ar gyfer enghraifft rydych chi wedi'i hastudio, disgrifiwch y patrwm cymudo. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| <p>Band 2 (3–4 marc): Disgrifiad o'r patrwm cymudo i mewn ac allan o ardal drefol</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Disgrifiad sylfaenol o'r patrwm cymudo naill ai i mewn neu allan o ardal drefol</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | Bydd yr ateb yn dibynnu ar yr enghraifft o gymudo sy'n cael ei disgrifio. I gyrraedd Band 2, rhaid ystyried cymudo i mewn ac allan o ardal drefol |



Caerdydd yw prifddinas Cymru, felly mae'n denu diwydiant a buddsoddi. Felly, caiff llawer o swyddi eu creu sy'n denu pobl, nid o Gaerdydd ei hun yn unig, ond hefyd o'r cymunedau cyfagos yn ne Cymru. Bob dydd, mae tua 78,000 o bobl yn cymudo i mewn i Gaerdydd. Maent yn gwneud hyn ar ffyrdd fel traffordd yr M4 sy'n cysylltu Caerdydd â dinasoedd fel Abertawe a Chasnewydd a thu hwnt. Mae'r A470 yn cysylltu Caerdydd â chymoedd de Cymru, sy'n galluogi pobl yn y cymunedau hyn i gymudo i Gaerdydd yn gymharol hawdd. Mae rheilffyrdd hefyd yn cysylltu Caerdydd â dwyrain a gorllewin Cymru, a rheilffordd y cymoedd sy'n cysylltu tua'r gogledd.

Yn ogystal â'r bobl sy'n cymudo i mewn i Gaerdydd, mae nifer llai o 34,000 yn cymudo allan o Gaerdydd bob dydd. Mae'r rhain yn tueddu i fynd i'r siroedd cyfagos fel Bro Morgannwg a Chaerffili, ond mae rhai hefyd yn croesi Afon Hafren i Fryste. [4]

4 Esboniwch y problemau sydd wedi cael eu hachosi gan gymudo yn eich enghraifft sydd wedi'i henwi. [6]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| <p>Band 3 (5–6 marc): Dealltwriaeth fanwl o'r problemau sydd wedi cael eu hachosi gan gymudo mewn enghraifft sydd wedi'i henwi. Rhaid rhoi o leiaf ddwy broblem</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Dealltwriaeth o'r problemau sydd wedi cael eu hachosi gan gymudo mewn enghraifft sydd wedi'i henwi. Dyma'r uchafswm os mai dim ond un broblem sy'n cael sylw</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Dealltwriaeth sylfaenol o'r problemau sydd wedi cael eu hachosi gan gymudo. Dyma'r uchafswm os nad oes enghraifft wedi'i henwi</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Bydd yr ateb yn dibynnu ar yr enghraifft o gymudo sy'n cael ei disgrifio. Dylai atebion band 3 sôn am o leiaf ddwy broblem</p> |

Mae'r nifer mawr o gymudwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Gaerdydd bob dydd yn achosi nifer o broblemau. Y brif broblem yw tagfeydd. Mae tagfeydd difrifol ar y prif ffyrdd i mewn i Gaerdydd yn ystod oriau brig. Er enghraifft, mae traffig yn aml yn llonydd ar yr A470 o'r de i Bontypridd i ganol dinas Caerdydd. Bydd hyn hefyd yn achosi sgil effeithiau ar ffyrdd lleol allai fod yn ddewis arall i gymudwyr sy'n ceisio curo'r traffig. Mae llygredd aer yn broblem arall. Os oes llawer o geir yn llonydd mewn traffig mewn dinas, maen nhw'n allyrru carbon deuocsid ac ocsid nitrus, sy'n cynyddu'r llygredd aer yn y ddinas a'r ardal o'i chwmpas. [6]

Tudalen 33

1 Beth mae'r term 'tloidi ac amddifadedd gwledig' yn ei olygu i chi? [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|-------------------------------------|--|
| Rhowch 1 marc am bob gosodiad dilys | Mae gan bobl sy'n byw mewn ardal wledig ddiffyg arian [1] a diffyg nodweddion allweddol sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer safon byw resymol [1] |



Mae tlodi ac amddifadedd gwledig yn golygu bod gan rai aelwydydd mewn ardaloedd gwledig incwm cyfyngedig oherwydd y diffyg swyddi sydd ar gael ac, felly, ddiffyg arian i allu cyflawni safon byw resymol. [2]

2 Esboniwch pam mae rhai cymunedau gwledig yn dioddef o amddifadedd gwledig. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|----------------------------------|--|
| Rhowch 1 marc am bob pwynt dilys | Diffyg swyddi yn y pentref [1], prisiau tai uchel [1], diffyg gwasanaethau [1], costau cymudo drud [1], costau bwyd drud mewn siopau gwledig [1], band eang o safon isel [1] |

Y mwyaf anghysbell yw ardal wledig, y mwyaf yw'r siawns y bydd yn dioddef amddifadedd gwledig. Mae hyn oherwydd bod ardaloedd gwledig anghysbell yn aml yn rhy bell oddi wrth ardal drefol i bobl gymudo, neu bod hynny'n rhy ddrud, ac nad oes digon o swyddi yn y pentref. Felly, mae pobl yn symud i ffwrdd i ddod o hyd i waith, sy'n golygu y bydd llai o bobl yn defnyddio gwasanaethau gwledig a gall hyn achosi iddynt gau. Fel arfer, mae nwyddau'n ddrutach i'w prynu hefyd oherwydd bod llai'n cael eu gwerthu i gyd ac felly bod rhaid i'r siop dalu mwy i'w prynu nhw gan eu cyflenwr. [4]

3 Trafodwch y sialensiau sy'n ymwneud â chreu cymunedau gwledig cynaliadwy. [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth fanwl am y sialensiau sy'n ymwneud â chreu cymunedau gwledig cynaliadwy. Rhaid rhoi o leiaf ddwy sialens a rhaid bod elfen o drafod yn bresennol</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth fanwl am y sialensiau sy'n ymwneud â chreu cymunedau gwledig cynaliadwy. Rhaid rhoi o leiaf ddwy sialens ond heb drafod</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth am y sialensiau sy'n ymwneud â chreu cymunedau gwledig cynaliadwy</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth sylfaenol am y sialensiau sy'n ymwneud â chreu cymunedau gwledig</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Bydd disgwyl i ymgeiswyr drafod sialensiau megis trafndiaeth gyhoeddus wael, diffyg tai fforddiadwy, diffyg gwasanaethau pentref, ysgolion bach sy'n wynebu cau ac ati</p> <p>Ar gyfer Bandiau 3 a 4, rhaid trafod o leiaf ddwy sialens, ac i gyrraedd Band 4 rhaid cynnwys elfen o drafod</p> |



Cymuned wledig gynaliadwy yw un sy'n gallu diwallu anghenion ei holl drigolion a darparu ansawdd bywyd da iddynt. Y prif sialensiau i gyflawni hyn mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig ardaloedd gwledig anghysbell, yw'r diffyg swyddi lleol a'r diffyg isadeiledd. Mae gan lawer o bobl mewn dinasoedd y cyfle i weithio o'u cartrefi oherwydd y gwasanaeth band eang rhagorol, ond dydy hyn ddim ar gael bob amser mewn cymunedau gwledig, yn enwedig rhai anghysbell. Gan fod y boblogaeth yn llai, dydy cwmnïau band eang ddim wedi canolbwyntio ar sicrhau gwasanaeth da mewn rhai ardaloedd gwledig gan fod llai o gwsmeriaid posibl yno. Bydd diffyg band eang dibynadwy yn cyfyngu ar y swyddi y gallai pobl eu gwneud ac felly'n cyfyngu ar incwm yn yr ardaloedd hyn. Os yw hi'n anodd i bobl gael gwaith mewn ardaloedd gwledig, ni fyddant yn gallu darparu ar gyfer anghenion eu teulu, cynnal eu cartrefi ac ati, a gall cylch o amddifadedd ddatblygu. Efallai y bydd yr isadeiledd gwael hefyd yn cyfyngu ar y siawns y daw cyfleoedd cyflogaeth newydd i'r ardal. Er enghraifft, os yw'r ffyrdd i mewn ac allan o'r ardal yn wael, mae'n annhebygol y bydd unrhyw ddiwydiant yn ei leoli ei hun yno gan y byddai hynny'n costio gormod o amser ac arian iddo. [7]

Tudalen 37

1 Rhestrwch dri math o fudo sy'n digwydd yn y DU. [3]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|----------------------------------|--|
| Rhowch 1 marc am bob pwynt dilys | Allfudo [1], mudo trefol-gwledig [1], mudo gwledig-trefol [1], mudo domestig [1], mewnfudo [1] |

Mudo gwledig-trefol, allfudo a mewnfudo. [3]

2 Esboniwch ddau fater yn ymwneud â thai sydd i'w gweld yn y DU ar hyn o bryd. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch 1 marc am bob pwynt dilys hyd at 2 farc. Rhowch un marc arall am esbonio'r ddau | Diffyg tai ar gael [1], mae'r boblogaeth yn cynyddu a mwy o aelwydydd sengl [1] Diffyg tai fforddiadwy [1], prisiau tai yn cynyddu'n llawer cyflymach na chyflogau pobl [1] |

Un mater yn ymwneud â thai sy'n wynebu'r DU ar hyn o bryd yw prinder tai. Mae'r galw am dai'n fwy na nifer y tai sydd ar gael, oherwydd bod mwy o bobl yn ysgaru ac yn byw'n hirach. Mae cost tai yn broblem arall. Mae prisiau tai'n codi o hyd, ac mae llawer o bobl yn methu eu fforddio. Dydy cyflogau ddim yn codi mor gyflym â phrisiau tai, felly dydy pobl ddim yn gallu fforddio morgeisi. [4]



3 Gwerthuswch yr opsiynau gwahanol sydd ar gael i leddfu'r argyfwng tai yn y DU. [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am ddatrysiadau i'r argyfwng tai. Trafod buddion ac anfanteision pob datrysiad</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am ddatrysiadau i'r argyfwng tai. Rhoi buddion neu anfanteision i bob un</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth am ddatrysiadau i'r argyfwng tai. Efallai y bydd yn dechrau awgrymu pa opsiynau sy'n well nag eraill</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol am rai datrysiadau i'r argyfwng tai. Dim gwerthuso</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Efallai y bydd yr awgrymiadau'n cynnwys adeiladu mwy o dai, tai mwy fforddiadwy, adeiladu mwy o dai cyngor, cynlluniau cymorth i brynu, cyfyngu ar y rhent a godir ac ati</p> |

Un opsiwn syml i ymdrin â'r argyfwng tai yw adeiladu mwy o dai. Pe bai mwy o dai'n cael eu hadeiladu, byddai digon i fodloni'r galw a byddai hyn yn cadw pris tai i lawr. Fodd bynnag, mae hyn yn haws dweud na gwneud, ac mae'n cymryd amser i adeiladu tai. Hefyd, mae'n cymryd amser i gytuno ynglŷn â ble i adeiladu'r tai, ac mae hyn i gyd yn golygu nad ydyn nhw'n cael eu hadeiladu'n ddigon cyflym. Opsiwn arall yw cyfyngu ar y rhent sy'n cael ei godi ar eiddo rhentu. Os nad yw rhywun yn gallu fforddio prynu eiddo, bydd angen iddo dalu rhent ar y tŷ lle mae'n byw. Mae rhai o'r cartrefi hyn yn cael eu rhentu gan y cyngor lleol, ac os felly, mae cyfyngiad ar brisiau rhent. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf gan landlordiaid preifat, heb gyfyngiad ar y pris y gellir ei godi. Busnes landlordiaid preifat sy'n rhentu eu cartrefi yw gwneud elw, ac felly maen nhw'n ceisio cael cymaint o arian â phosibl gan eu tenantiaid. Pe bai cyfyngiad yn cael ei gyflwyno, byddai hyn yn cyfyngu ar y rhent y gellid ei godi ac felly byddai'r tenantiaid yn arbed arian. Fodd bynnag, gallai hyn achosi i fusnesau rhai o'r landlordiaid fynd i'r wal a gallai hynny yn ei dro leihau nifer y tai sydd ar gael i'w rhentu, gan wneud y sefyllfa'n waeth. [8]



Tudalen 39

1 Disgrifiwch unrhyw ddwy o rannau olwyn Egan. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch 1 marc am hyd at ddwy ran o olwyn Egan a marc arall am ddisgrifiad o bob un | <p>Gweithredol, cynhwysol a diogel [1]: rhoi teimlad o hunaniaeth i'r gymuned a chreu bondiau cryf [1]</p> <p>Wedi'i chynnal a'i harwain yn dda [1]: bydd pawb yn teimlo bod eu llais wedi cael ei glywed, ac y caiff ei glywed [1]</p> <p>Amgylcheddol sensitif [1]: gofalu am yr amgylchedd a bywyd gwyllt [1]</p> <p>Wedi'i dylunio'n dda [1]: yn cynnwys arweddion naturiol, cartrefi wedi'u hadeiladu'n dda a datrysiadau egni adnewyddadwy [1]</p> <p>Cysylltiadau da [1]: ffyrdd da fel bod cymudo'n hawdd [1]</p> <p>Ffyniannus [1]: mae'r economi leol yn darparu digonedd o swyddi amrywiol [1]</p> <p>Wedi'i gwasanaethu'n dda [1]: digon o wasanaethau trafndiaeth a mwynderau [1]</p> <p>Teg i bawb [1]: nawr ac yn y dyfodol [1]</p> |

Un rhan o olwyn Egan yw bod â cysylltiadau da. Mae hyn yn golygu cysylltiadau trafndiaeth da i mewn ac allan o'r ddinas fel bod pobl yn gallu teithio i'r gwaith neu i'r ysgol yn hawdd. Mae bod yn amgylcheddol sensitif yn rhan arall o'r olwyn. Mae hyn yn golygu ystyried ecosystemau a bywyd gwyllt wrth adeiladu'r ddinas. [4]



2 'Mae sicrhau cymuned gynaliadwy yr un mor anodd ar safle tir glas ag y mae ar safle tir llwyd.' Trafodwch pam gall y gosodiad hwn fod yn gywir. [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am greu cymuned gynaliadwy. Cymharu materion tir glas a thir llwyd ac asesu pam mae'r gosodiad yn gywir</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am greu cymuned gynaliadwy. Cymharu materion tir glas a thir llwyd</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth am greu cymuned gynaliadwy. Cyfeirio naill ai at dir llwyd neu at dir glas</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol am greu cymuned gynaliadwy. Dim cyfeiriad at y math o safle</p> <p>Dim band (0 marc): Rhwch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Mae disgwyl i ymgeiswyr wybod beth yw safleoedd tir glas a thir llwyd a pha faterion sy'n gysylltiedig ag adeiladu ar y ddau, er enghraifft caniatâd cynllunio, cael gwared â'r defnydd presennol o'r tir, halogi tir ac ati</p> <p>Ar gyfer Band 4, rhaid bod elfen o drafod pam mae yr un mor anodd adeiladu ar y ddau fath o safle</p> |

Mae'r term safle tir glas yn ymwneud â datblygu ar dir lle nad oes dim byd wedi'i adeiladu o'r blaen, a safle tir llwyd yw un lle mae rhywbeth wedi'i adeiladu o'r blaen ac sydd nawr yn cael ei ailddatblygu. Anhawster cyflawni cymuned gynaliadwy wedi'i hadeiladu ar safle tir glas yw bod hynny'n dinistrio ecosystem sy'n bodoli ac felly'n golygu colli bywyd gwyllt. Fodd bynnag, mantais y safle yw'r gallu i'w gynllunio a'i adeiladu â golwg ar gynaliadwyedd o'r dechrau ac, felly, gallu sicrhau ei fod yn defnyddio technolegau gwyrdd ac yn cynnwys tai sy'n addas i bawb. Mae adeiladu ar safle tir llwyd yn fwy cynaliadwy o ran peidio â dinistrio ecosystem. Fodd bynnag, oherwydd yr adeiladau a'r isadeiledd sy'n bodoli'n barod, mae'n anoddach cynnwys technolegau gwyrdd ar gyfer gwresogi ac ati, oherwydd bydd angen ôl-osod y rhain. Felly, mae'r gosodiad hwn yn gywir hyd at bwynt ond mae anawsterau â defnyddio'r ddau fath o safle. [7]



Tudalen 41

‘Dydy hi ddim yn bosibl cyflawni holl nodweddion cymuned drefol gynaliadwy, fel sy’n cael eu dangos gan olwyn Egan, mewn un ardal drefol.’ Rhowch resymau o blaid ac yn erbyn y gosodiad hwn. [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â pham dydy hi ddim yn bosibl cyflawni olwyn Egan mewn ardaloedd trefol. Dadleuon cytbwys o blaid ac yn erbyn</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â pham dydy hi ddim yn bosibl cyflawni olwyn Egan mewn ardaloedd trefol. Dadleuon o blaid ac yn erbyn ond heb fod yn gytbwys o reidrwydd</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â pham na fyddai hi o reidrwydd yn bosibl cyflawni olwyn Egan. Naill ai dadleuon o blaid neu yn erbyn pob pwynt</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol ynglŷn â pham na fyddai hi o reidrwydd yn bosibl cyflawni olwyn Egan</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw’r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Bydd ymgeiswyr yn rhoi dadleuon fel mae pob cymuned eisiau pethau gwahanol, gallai arweddion ffisegol gyfyngu ar y ‘delfrydol’, mae tai ecolegol yn costio mwy, ac yn rhy ddrud i rai sectorau o’r gymuned ac ati</p> <p>Dylid rhoi dadleuon o blaid ac yn erbyn.</p> |

Y prif reswm pam gallai’r gosodiad hwn fod yn gywir yw oherwydd bod gwahanol agweddau ar olwyn Egan yn gwrthdaro â’i gilydd ac felly mae hi’n anodd iawn cyflawni pob rhan. Er enghraifft, gallai bod yn amgylcheddol sensitif wrthdaro â darparu cysylltiadau trafndiaeth da i drigolion. Mae adeiladu mwy o ffyrdd a rheilffyrdd yn ei gwneud hi’n anodd iawn cynnal cynefinoedd a gwarchod bywyd gwyllt. Un rheswm yn erbyn y gosodiad hwn yw bod modd cyflawni rhai o’r ffactorau yn yr un ardal drefol. Er enghraifft, bydd ‘teg i bawb’ yn ategu ‘wedi’i chynnal a’i harwain yn dda’. Bwriad hyn yw sicrhau bod pawb yn teimlo bod eu barn wedi’i chlywed, ac mae hyn yn ategu ‘teg i bawb’. Felly, rwy’n meddwl ei bod hi’n bosibl cyflawni rhai rhannau o olwyn Egan mewn un ardal drefol, ond byddai’n anodd cyflawni pob un. [7]



Tudalen 43

- 1 Edrychwch ar Ffigur 8, sy'n dangos lleoliadau dinasoedd global. Disgrifiwch eu dosbarthiad. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|-------------------------------------|--|
| Rhowch 1 marc am bob gosodiad dilys | Wedi'u clystyru mewn ardaloedd ledled y byd [1] Mae'r clwstwr mwyaf yn Ewrop [1], y cyfandir â'r nifer lleiaf yw Affrica [1] Mae'r rhan fwyaf ar forlinau [1] Mae'r rhan fwyaf yn hemisffer y gogledd [1] |

Mae dinasoedd global yn bodoli mewn clystyrau ledled y byd, heblaw ar gyfandiroedd yr Antartig ac Affrica. Mae'r clwstwr mwyaf yn Ewrop, lle mae un deg tri o ddinasoedd global, ac mae'r nifer lleiaf yn Affrica – dim ond un ddinas global sydd yno. Mae'r rhan fwyaf i'r gogledd o'r cyhydedd. [4]

- 2 Esboniwch pam mai'r dinasoedd mewn gwledydd newydd eu diwydianeiddio (NICs) sydd yn tyfu ar y gyfradd gyflymaf. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch 1 marc am bob ymateb cywir a marc ychwanegol am esbonio pam byddai hyn yn arwain at dwf cyflym | Dyma enghreifftiau o atebion: Twf mewn diwydiant [1]: pobl yn symud i ddinasoedd oherwydd bod eu hangen i weithio mewn ffatrioedd [1] Mudo gwledig i drefol [1]: pobl yn symud yn y gobaith o gael swydd sy'n talu'n well [1] Contractio allan [1]: gwledydd incwm uchel yn contractio canolfannau galwadau a ffatrioedd allan i wledydd newydd eu diwydianeiddio er mwyn cynyddu elw [1] |

Dinasoedd mewn gwledydd newydd eu diwydianeiddio sy'n tyfu ar y gyfradd gyflymaf oherwydd eu bod nhw'n diwydianeiddio. Mae hyn yn golygu bod llawer o fudo gwledig–trefol gan fod angen pobl i weithio yn y ffatrioedd. Fodd bynnag, mae pobl hefyd yn symud i'r dinasoedd hyn am eu bod yn meddwl eu bod nhw'n mynd i gael gwaith, er nad yw ar gael bob amser, ac felly mae maint y dinasoedd yn tyfu, a hynny'n gyflym oherwydd bod cymunedau slymiau'n tyfu'n gyflym. Dydy slymiau ddim yn dai sydd wedi'u cynllunio nac yn barhaol, felly gellir eu 'hadeiladu' nhw'n hawdd ac mae'r ddinas yn ehangu'n gyflym iawn. [4]



3 Disgrifiwch y nodweddion sydd eu hangen ar ddinasoedd er mwyn cael eu cyfrif yn ddinas global. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Rhowch 1 marc am bob gosodiad dilys hyd at bedwar gosodiad | <p>Denu mudwyr economaidd o bedwar ban byd [1]</p> <p>Mae'r penderfyniadau a wneir mewn un ddinas yn gallu effeithio ar bobl ledled y byd [1]</p> <p>Mae canolfan ariannol yno a allai gynnwys pencadlys banciau a marchnadoedd ariannol [1]</p> <p>Cysylltiadau da â gweddill y byd drwy ganolfannau trafndiaeth [1]</p> <p>Canolfannau cyfryngau mawr fel gorsafoedd teledu a phapurau newydd [1]</p> |

I ddinas fod yn ddinas global, mae angen cysylltiadau da a nifer o ganolfannau trafndiaeth. Mae hyn er mwyn i bobl a nwyddau allu symud drwy'r ganolfan hon a'r ddinas i gyrraedd eu cyrchfan derfynol, felly mae'n gyswllt pwysig. Ffactor arall yw bod angen canolfan ariannol lle mae pencadlys banciau a busnesau wedi'u lleoli, yn ogystal â'r farchnad stoc. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n ganolfannau masnach, sy'n ychwanegu at eu harwyddocâd. [4]

Tudalen 45

1 Beth yw ystyr y term 'dinas global'? [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch 1 marc am y diffiniad cywir ac ail farc am ddatblygiad | Dinasoedd sy'n flaenllaw yn y system economaidd fyd-eang o gyllid a masnach [1] ac enwi enghraifft [1] |

Dinas global yw dinas sy'n bwysig yn nhermau cyllid a masnach yn fyd-eang, er enghraifft Llundain. [2]

2 Pam mae sialensiau mewn aneddiadau anffurfiol yn anodd eu goresgyn? [6]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth fanwl am sialensiau mewn aneddiadau anffurfiol ac esboniad o pam mae'n anodd eu goresgyn</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth am sialensiau mewn aneddiadau anffurfiol ac esboniad cyfyngedig o pam mae'n anodd eu goresgyn</p> <p>Band 1 (1–2 farc): Gwybodaeth sylfaenol am sialensiau mewn aneddiadau anffurfiol</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Mae'n debyg y bydd ymgeiswyr yn awgrymu datrysiadau i broblemau mewn aneddiadau anffurfiol ac yna'n esbonio pam mae'n anodd rhoi'r datrysiadau hyn ar waith. Fodd bynnag, os ydynt yn dewis canolbwyntio'n llwyr ar y sialensiau heb sôn rhyw lawer am ddatrysiadau, mae hyn hefyd yn dderbyniol</p> <p>Ar gyfer Band 3, bydd ymgeiswyr yn nodi'r sialensiau ac yn esbonio pam maen nhw'n broblem mewn aneddiadau anffurfiol</p> |



Tlodi sy'n gyfrifol am y sialensiau mewn aneddiadau anffurfiol fel arfer, a dyna'r prif reswm pam mae'n anodd eu goresgyn nhw. Un her yw ansawdd y tai lle mae pobl yn byw yn yr aneddiadau hyn. Er enghraifft, mae'r favelas yn Rio de Janeiro wedi'u hadeiladu gan fwyaf o sbarion pren, haearn rhychiog a defnyddiau gwastraff eraill oherwydd dydy'r trigolion ddim yn gallu fforddio prynu tŷ pwrpasol a dydy'r llywodraeth ddim yn gallu fforddio eu hanheddu nhw. Felly, mae'n anodd goresgyn y mater hwn o dai o ansawdd gwael oherwydd tlodi. Mater arall sy'n gysylltiedig â thai anffurfiol yw iechyd gwael y trigolion. Mae clefydau'n lledaenu'n gyflym ac mae pobl yn aml yn marw o glefydau y gellir eu gwella yn y byd Gorllewinol. Mae'n anodd goresgyn hyn gan fod pobl yn byw'n agos iawn at ei gilydd oherwydd dwysedd y tai a hefyd gan nad oes dŵr glân yn rhedeg na system i waredu gwastraff, felly mae clefydau'n lledaenu'n gyflym. [6]

Tudalen 47

1 Disgrifiwch beth yw canolfan trafndiaeth. [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch 1 marc am ddiffiniad cywir a marc arall am enghraifft o hyn | Pwynt canolog lle mae nifer o rwydweithiau trafndiaeth yn cwrdd [1] ac enwi enghraifft [1] |

Canolfan trafndiaeth yw lle mae llawer o bwyntiau trafndiaeth yn cwrdd fel bod teithwyr yn gallu cysylltu'n rhwydd â'u dull trafndiaeth nesaf. Enghraifft dda o hyn yw Maes Awyr Schiphol yn Amsterdam. [2]

2 Esboniwch pam mae twristiaeth yn galluogi dinasoedd global i gysylltu â'i gilydd. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Rhowch 1 marc am bob gosodiad dilys a marc arall am ddatblygu'r gosodiad | <p>Mae nifer y teithiau hedfan hir wedi cynyddu, ynghyd â nifer y cyrchfannau [1], felly mae dinasoedd global yn gallu darparu canolfannau canolog ar gyfer trafndiaeth [1]</p> <p>Mae nifer y teithiau hedfan byr wedi cynyddu [1], a bydd hyn yn arwain at fwy o gyfnwid diwylliant [1]</p> <p>Mae twristiaeth yn ffynhonnell refeniw werthfawr i lawer o wledydd [1], a bydd hyn yn cynyddu ei bwysigrwydd economaidd byd-eang [1]</p> |

Mae twristiaeth yn golygu y gellir cysylltu dinasoedd global oherwydd yn gyntaf mae angen llwybrau i ganiatáu i'r twristiaid gyrraedd y gwledydd hyn. Felly, mae angen buddsoddi mewn meysydd awyr ac isadeiledd er mwyn i'r dwristiaeth allu digwydd. Bydd hyn yn annog niferoedd ac amllder teithiau hedfan hir a byr fel y bydd mwy o dwristiaid yn gallu ymweld. Bydd cynyddu nifer y twristiaid hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r wlad a'i diwylliant a'i chynhyrchion, ac felly bydd hyn yn creu mwy o gysylltiadau. [4]



- 3 Ar gyfer dwy ddinas global rydych chi wedi eu hastudio, disgrifiwch y cysylltiadau sydd ganddyn nhw â gweddill y byd a phenderfynwch pa fath o gysylltiad sydd fwyaf pwysig i'r ddinas honno. [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Disgrifio cysylltiadau'r ddwy ddinas gyda thystiolaeth. Gwneud penderfyniad ynglŷn â'r math pwysicaf o gysylltiad, ynghyd â rhesymu i ategu'r dewis</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Disgrifio cysylltiadau'r ddwy ddinas gyda rhywfaint o dystiolaeth, ond efallai y bydd anghydbwysedd. Gwneud penderfyniad ynglŷn â'r math pwysicaf o gysylltiad, ond efallai na fydd llawer o resymu</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Rhoi o leiaf un cysylltiad ar gyfer y ddwy dinas, ond heb lawer o dystiolaeth. Dewis y cysylltiad pwysicaf i o leiaf un ddinas, ond heb roi tystiolaeth</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Rhoi rhywfaint o wybodaeth berthnasol ond heb lawer o dystiolaeth a heb strwythur da</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Bydd atebion yr ymgeisydd yn dibynnu ar y dinasoedd mae wedi eu dewis. Dylid disgrifio mwy nag un cysylltiad ar gyfer pob dinas gyda thystiolaeth, ac ar gyfer Band 4, dylid dewis y cysylltiad pwysicaf i bob dinas</p> |

Y ddwy ddinas global rwyf fi wedi eu hastudio yw Caerdydd a Mumbai. Mae Caerdydd yn neddwyrain Cymru ac mae ganddi gysylltiadau tir, awyr a môr. Mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer teithwyr a nwyddau, felly mae'n cysylltu Caerdydd â gweddill y byd ar gyfer twristiaeth, busnes a masnach. Prif gysylltiad Caerdydd â gweddill y DU yw traffordd yr M4, traffordd fawr sy'n cysylltu Llundain â gorllewin y DU. Ar yr M4, gall pobl deithio o Gaerdydd i Lundain mewn tua dwy awr. Hefyd, mae gan Gaerdydd borthladd. Er ei fod yn lleihau ar hyn o bryd, ar ddechrau'r 1900au hwn oedd porthladd prysuraf y byd, yn allforio glo Cymru yn fyd-eang. Y porthladd oedd y cysylltiad pwysicaf i Gaerdydd yn y gorffennol, ond heddiw rwy'n meddwl mai traffordd yr M4 yw'r cysylltiad pwysicaf.

Mae gan Mumbai hefyd amrywiaeth o gysylltiadau: maes awyr, porthladd a chysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd. Mae'r rheilffordd yn cysylltu Mumbai â phob rhan o India, sy'n bwysig i symud nwyddau a phobl o gwmpas y wlad. Mae'r rheilffyrdd hyn ymysg y prysuraf yn y byd, ac mae'r trenau'n aml yn orlawn. Mae porthladd Mumbai (Nhava Sheva) yn gysylltiad pwysig ar gyfer masnach ac allforion a mewnfurion ar draws Môr Arabia. Mae maes awyr Mumbai hefyd yn bwysig i ddod â miloedd o dwristiaid i ymweld â'r ddinas bob blwyddyn, yn ogystal â phenaethiaid y cwmnïau amlwladol sy'n ymweld â'u hunedau contractio allan yn y wlad. Fodd bynnag, rwy'n meddwl mai'r system rheilffyrdd yw'r cysylltiad pwysicaf yn y ddinas gan ei bod hi'n cludo miloedd o bobl a nwyddau bob dydd. [8]



Thema 3

Tudalen 53

Disgrifiwch sut mae prosesau tectonig ar ymyl plât distrywiol wedi arwain at ffurfio unrhyw fath o arwedd ar raddfa fawr, fel ffos gefnforol neu losgfynydd. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch 1 marc yr un am bedwar gosodiad dilys sy'n canolbwyntio ar brosesau Derbyniwch fynyddoedd plyg fel tirffurf dilys Peidiwch â rhoi'r marc am enwi'r arwedd ar raddfa fawr | Ffos gefnforol: plât cefnforol a phlât cyfandirol yn cydgyfeirio [1], wedi'u gyrru gan geryntau darfudiad yn y fantell [1], plât cefnforol mwy dwys yn cael ei orfodi o dan y plât cyfandirol [1], proses o'r enw tansugno [1], ffurfio pant dwfn hir ar lawr y cefnfor [1] Llosgfynydd: plât cefnforol a phlât cyfandirol yn cydgyfeirio [1], wedi'u gyrru gan geryntau darfudiad yn y fantell [1], plât cefnforol mwy dwys yn cael ei orfodi o dan y plât cyfandirol [1], proses o'r enw tansugno [1], wrth i'r plât cefnforol sugno, mae'n toddi [1], mae'r magma tawdd yn gwneud ei ffordd i'r arwyneb [1], drwy graciau/ffawtiau yn y graig [1] |

Mae'r tymereddau uchel yng nghraidd y Ddaear yn creu ceryntau darfudiad yn y fantell sy'n achosi i'r platiau tectonig symud. Ar ymyl plât ddistrywiol, mae plât cefnforol a phlât cyfandirol yn symud tuag at ei gilydd ac mae'r plât cefnforol yn cael ei orfodi o dan y plât cyfandirol. Tansugno yw hyn. Mae rhych ddwfn hir yn ffurfio yn llawr y cefnfor; mae Ffos Mariana yn enghraifft. [4]

Tudalen 57

Astudiwch y ffotograff sy'n dangos effaith y tsunami ar arfordir Japan.

Defnyddiwch dystiolaeth o'r ffotograff yn unig i ddisgrifio dwy ffordd mae'r tsunami wedi effeithio ar fywydau pobl sy'n byw yn ardaloedd arfordirol Japan. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys, 1 marc yr un Gellir datblygu'r gosodiadau hyn am hyd at ddau farc ychwanegol yr un. Felly, mae tair ffordd i ymgeiswyr ennill 4 marc (3+1, 2+2 neu 1+3) Rhaid i dystiolaeth ddod o'r ffotograff i gael marciau | Dinistrio tai [1], pobl yn ddigartref [1], dim dŵr yfed glân i bobl [1], clefydau'n lledaenu [1] Dinistrio ffyrdd [1], pobl yn methu mynd i'r ysbyty [1], pobl yn methu mynd i'r gwaith [1] Dinistrio siopau/busnesau [1], pobl yn methu prynu bwyd/diod [1], yr henoed a phlant yn arbennig o agored i niwed [1] Rwbel yn gorchuddio'r tir [1], angen ei glirio cyn i fywyd allu bod yn normal eto [1], proses ddrud [1] |



Mae'r ffotograff yn dangos yr adeiladau i gyd wedi'u dinistrio'n llwyr. Mae hyn yn golygu bod cartrefi pobl wedi cael eu dinistrio ac na fydd ganddynt le i fyw. Byddant allan yn y tywydd, sy'n gallu bod yn oer iawn yn y nos, a gallai pobl ddi-ddedf am eu bod nhw wedi colli llawer o'u dillad. Hefyd, mae'r ffyrdd i gyd wedi'u gorchuddio â sbwriel sy'n golygu na fydd plant yn gallu mynd i'r ysgol ac na fydd pobl yn gallu mynd i'r siopau i brynu bwyd. [4]

Tudalen 59

Esboniwch pam mae pobl sy'n byw mewn gwledydd incwm isel yn fwy tebygol o fod yn fwy agored i effeithiau peryglon tectonig. [6]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| <p>Band 3 (5–6 marc): Dangos dealltwriaeth fanwl o fywydau pobl sy'n byw mewn gwledydd incwm isel a pham mae hyn yn eu gwneud nhw'n fwy agored i niwed. Mae'r ystyr yn glir. Mae pwrpas i'r ymateb, mae'n drefnus ac wedi'i strwythuro'n dda.</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Dangos dealltwriaeth o fywydau pobl sy'n byw mewn gwledydd incwm isel a pham mae hyn yn eu gwneud nhw'n fwy agored i niwed. Mae'r ystyr yn gyffredinol glir. Mae'r ymateb wedi'i strwythuro</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gosodiadau syml yn dangos dealltwriaeth sylfaenol. Mae'n bosibl na fydd yr ateb yn ddigon eglur. Gosodiadau wedi'u cysylltu â strwythur sylfaenol</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Dylai'r ymatebion ddangos dealltwriaeth o fywydau pobl sy'n byw mewn gwledydd incwm isel. Dylai'r ymatebion gysylltu'r ddealltwriaeth hon i roi rhesymau pam mae'r bobl hyn yn debygol o fod yn fwy agored i niwed</p> <p>Dylai ymatebion Band 3 roi enghreifftiau i ategu'r ddealltwriaeth.</p> <p>Ymhlith yr enghreifftiau mae:</p> <p>Mae pobl mewn gwledydd incwm isel yn debygol o fyw a gweithio mewn adeiladau sy'n llai tebygol o wrthsefyll digwyddiadau tectonig. Mae'n debygol y bydd gan wasanaethau argyfwng, fel timau iechyd ac achub, lai o adnoddau ac na fyddant wedi'u hyfforddi cystal â rhai mewn gwledydd mwy cyfoethog. Yn Indonesia er enghraifft, ar ôl echdoriad Mynydd Merapi, roedd adeiladau wedi'u gorchuddio â lludw a chafodd miloedd o bobl eu gwneud yn ddigartref. Treuliodd y bobl hyn wythnosau'n byw mewn llochesi argyfwng. Doedd dim digon o doiledau na dŵr yfed glân a chafodd llawer eu lladd gan glefydau</p> |

Mae peryglon tectonig fel daeargrynfeydd neu echdoriadau folcanig yn cael effaith fwy ar bobl sy'n byw mewn gwledydd incwm isel. Dydy pobl dlotach ddim yn gallu fforddio tai sydd wedi'u hadeiladu i amddiffyn rhag y peryglon hyn. Mae pobl mewn gwledydd incwm isel yn fwy tebygol o fod yn anlythrennog, sy'n golygu ei bod hi'n anodd iddyn nhw ledaenu gwybodaeth a rhybuddion. Fydd gan lywodraethau mewn gwledydd incwm isel ddim digon o arian i adeiladu adeiladau sy'n gallu gwrthsefyll digwyddiadau eithafol nac i addysgu pobl i fod yn ymwybodol o'r peryglon, a fydd y gwasanaethau argyfwng ddim mor ddatblygedig i allu achub a thrin pobl. Felly, gwnaeth echdoriad Mynydd Merapi yn Jawa, gwlad incwm isel, yn 2010 achosi 353 o farwolaethau, yn bennaf oherwydd llifoedd pyroclastig, a chafodd 570 o bobl eu hanafu. Roedd rhaid i filoedd o bobl dreulio wythnosau'n byw mewn 700 o lochesi argyfwng a doedd dim digon o doiledau na dŵr yfed glân i bawb. [6]



Thema 4

Tudalen 63

Astudiwch y ffotograff.

Defnyddiwch dystiolaeth o'r ffotograff yn unig i ddisgrifio dwy ffordd gwnaeth y seiclon effeithio ar fywydau pobl sy'n byw yn yr ardaloedd arfordirol gafodd eu heffeithio gan Seiclon Phailin. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys, 1 marc yr un Gellir datblygu'r gosodiadau hyn am hyd at 2 farc ychwanegol yr un. Felly, mae tair ffordd i ymgeiswyr ennill 4 marc (3+1, 2+2 neu 1+3) Rhaid i dystiolaeth ddod o'r ffotograff i gael marciau | Dinistrio tai [1], pobl yn ddigartref [1], dim dŵr yfed glân i bobl [1], clefydau'n lledaenu [1], bydd yn ddrud i ailadeiladu tai [1], efallai na fydd gan bobl yswiriant [1] Pobl wedi colli eu heiddo [1], mae'r ffotograffau'n awgrymu bod y bobl yn dlawd [1], bydd yn cymryd amser hir i'r teulu adfer pethau [1] |

Mae'r ffotograff yn dangos yr adeiladau i gyd wedi'u dinistrio. Mae cartrefi pobl wedi cael eu dinistrio ac ni fydd ganddynt le i fyw. Gallai clefydau ledaenu os nad ydyn nhw'n gallu ymolchi, ac efallai na fyddan nhw'n gallu mynd at y doctor i gael moddion. Mae'r bobl yn y ffotograff yn edrych yn dlawd ac efallai nad oes ganddyn nhw yswiriant, felly bydd yn cymryd amser hir iddyn nhw adfer pethau. [4]

Tudalen 70

Disgrifiwch sut byddai strategaethau peirianyddol caled yn gallu cael eu defnyddio i leihau'r perygl o erydu arfordirol a llifogydd mewn un lleoliad rydych chi wedi'i astudio. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Band 2 (3–4 marc): Disgrifiad wedi'i ddatblygu o un neu ragor o strategaethau yng nghyd-destun ardal a enwir Band 1 (1–2 farc): Gosodiadau sylfaenol sy'n amlinellu un neu ragor o strategaethau Dim band (0 marc) Rhowch 0 marc os yw'n hollol amherthnasol Peidiwch â rhoi marciau am ddisgrifiad o ailgyflenwi'r traeth neu encilio rheoledig | Dylai ymatebion ddangos gwybodaeth am strategaethau. Gallai'r ymatebion ddisgrifio: <ul style="list-style-type: none"> • morgloddiau • rip rap • caergewyll • gwrthgloddiau • argorau Rhowch farciau am ddisgrifio strategaethau peirianeg sy'n defnyddio elfen adeileddol i annog dyddodiad gwaddod traeth fel argorau a barriffiau |



Mae peirianeg galed yn golygu defnyddio adeileddau i reoli prosesau arfordirol. Mae'r rhain yn cynnwys morgloddiau, argorau a rip rap. Maen nhw'n ddrud ac yn cael effaith fawr ar yr amgylchedd. Mae morgloddiau fel arfer wedi'u gwneud o goncrit ac yn aml yn atro i adlewyrchu'r tonnau yn ôl arnynt eu hunain. Mae hyn yn amddiffyn yr arfordir rhag cael ei erydu a'i fodd gan y tonnau. Mae argorau fel rheol wedi'u gwneud o bren ac maen nhw'n dal tywod, sy'n atal y tywod rhag cael ei symud gan ddrift y glannau. Mae hyn yn gwneud y traeth yn lletach fel ei fod yn amsugno egni'r tonnau. Yn Borth, Ceredigion, dechreuodd gwaith yn 2010 i adeiladu pedwar argor o greigiau i adeiladu'r traeth ac amddiffyn y pentref yn bellach i mewn i'r tir rhag llifogydd. Cafodd y cynllun ei gwblhau yn 2015 a'r gost oedd £18 miliwn. Mae wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn. [4]

Tudalen 72

'Mae ynys-wladwriaethau bach datblygol yn fwy agored i beryglon arfordirol nag unrhyw leoliad arall.' Ydych chi'n cytuno â'r gosodiad hwn? Esboniwch eich ateb. [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Dadansoddiad cytbwys a chasgliad soffistigedig. Gwneir amrywiaeth o bwyntiau manwl wedi'u datblygu o blaid ac yn erbyn y gosodiad. Mae'r casgliad wedi'i gyfiawnhau gan ddefnyddio cadwyn soffistigedig o ymresymu. Mae'r ystyr yn ddiamwys. Mae pwrpas clir i'r ymateb, mae'n groyw ac wedi'i strwythuro'n rhesymegol</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Dadansoddiad wedi'i ddatblygu a chasgliad rhesymegol. Gwneir amrywiaeth o bwyntiau wedi'u datblygu ar un neu'r ddwy ochr o'r ddadl. Casgliad rhesymegol a dilys sy'n seiliedig ar y dystiolaeth. Mae'r ystyr yn glir. Mae pwrpas i'r ymateb, mae'n drefnus ac wedi'i strwythuro'n dda.</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Dadansoddiad dilys ond cyfyngedig a chasgliad syml. Gwneir pwyntiau dilys ar un neu'r ddwy ochr i'r ddadl. Casgliad â chyfiawnhad cyfyngedig. Mae'r ystyr yn gyffredinol glir. Mae'r ymateb wedi'i strwythuro</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Dadansoddiad a chasgliad sylfaenol. Gwneir pwyntiau dilys ond sylfaenol heb eu datblygu rhyw lawer. Casgliad syml heb gyfiawnhad. Efallai bod yr ystyr yn aneglur mewn manau. Gosodiadau wedi'u cysylltu â strwythur sylfaenol</p> <p>Dim band (0 marc) Rhowch 0 marc os yw'n hollol amherthnasol</p> | <p>Dylai'r ymatebion ddangos dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae ynys-wladwriaethau bach datblygol yn arbennig o agored i beryglon arfordirol</p> <p>Mae ynys-wladwriaethau bach datblygol yn wledydd arfordirol isel a gafodd eu cydnabod yn grŵp ar wahân am y tro cyntaf yn 1992. Maen nhw'n wynebu sialensiau cyffredin, gan gynnwys poblogaethau bach sy'n tyfu, adnoddau prin, lleoliad anghysbell ac amgylcheddau bregus</p> <p>Mae'r Maldives yn enghraifft o ynys-wladwriaeth fach ddatblygol, ac mae'r boblogaeth yn 350,000. Mae wyth deg y cant o arwynebedd y tir lai nag 1 m uwchben lefel y môr. Mae'n wlad dlawd, ac mae'n rhif 165 ar restr o 192 o genedl-wladwriaethau yn ôl cyfoeth. Gan fod lefelau'r môr yn codi, mae'n bosibl y bydd yr ynysydd yn diflannu yn y ganrif nesaf</p> <p>Mae Delta'r Nil yn rhan o wlad yr Aiff ar gyfandir Affrica, ac mae dros 40 miliwn o bobl yn byw yno. Mae'r darn o dir 50 km o led ar hyd yr arfordir lai na 2 m uwchben lefel y môr. Mae'r ardal wedi'i hamddiffyn rhag llifogydd gan lain dywod sy'n amrywio o 1 i 10 km o led. Bydd unrhyw godiad yn lefel y môr yn dinistrio rhannau o'r llain dywod hon. Gallai wyth miliwn o bobl ddod yn ffoaduriaid amgylcheddol</p> |



Mae ynys-wladwriaethau bach datblygol, fel y Maldives yng Nghefnfor India, yn wledydd isel iawn. Y rhain sy'n wynebu'r risg uchaf oherwydd y cynnydd yn lefelau'r môr allai ddigwydd o ganlyniad i newid hinsawdd. Er enghraifft, pe bai lefel y môr yn codi 1 metr, byddai hyn yn boddi tua 75 y cant o arwyneb tir y Maldives.

Fodd bynnag, nid dyma'r unig ardaloedd sy'n wynebu risg oherwydd peryglon arfordirol. Mae rhai morlinau fel y Thames Gateway yn agored i niwed gan ymchwyddiadau storm oherwydd effaith sianelu eu morydau. Mae rhai morlinau dan fygythiad gan tsunami. Ym mis Rhagfyr 2004, effeithiodd tsunami Cefnfor India ar un deg tri o wledydd gan ladd dros 230,000 o bobl. Mae creigiau clai morlin Holderness yn golygu bod ganddo rai o'r cyfraddau erydiad uchaf yn y byd.

Ar Ddelta'r Nîl, yr Aifft, mae dros 40 miliwn o bobl wedi'u gwasgu i mewn i stribed 50 km o dir sydd lai na 2 m uwchben lefel y môr. Mae llawer o'r rhain yn dlawd ac yn byw mewn tai anffurfiol. Bydd codiad yn lefelau'r môr yn dinistrio'r belt tywod sy'n amddiffyn y bobl hyn. Bydd wyth miliwn o bobl yn dod yn ffoaduriaid amgylcheddol a chaiff rhannau o Alexandria sydd ar dir isel eu dinistrio.

Felly, er bod ynys-wladwriaethau bach datblygol yn wynebu risg ac er y gallent ddi-flannu'n llwyr yn y 100 mlynedd nesaf, a fyddai'n golygu colli eu diwylliant a'u ffordd o fyw hefyd, mae llawer mwy o bobl mewn rhannau eraill o'r byd sy'n wynebu risg i'w bywydau hefyd. Felly, fyddwn i ddim yn dweud bod ynys-wladwriaethau bach datblygol yn fwy agored i niwed na lleoliadau eraill.[8]



Thema 5

Tudalen 75

Disgrifiwch y newid yn ehangder iâ môr Arctig rhwng 1979 a 2014. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| Rhowch farciau am bedwar gosodiad dilys, 1 marc yr un Caniatewch hyd at 2 farc am feintioli, er enghraifft cyfanswm lleihad 16.5–14.4 km ² [1], cyfartaledd 0.08 km ² y flwyddyn [1] | Lleihau [1], amrywio [1], lleihad mawr 2002–2006 [1], meintioli [2] |

Yn 1979, roedd iâ môr Arctig yn gorchuddio arwynebedd o 16.5 miliwn km². Mae'r arwynebedd hwn wedi lleihau ers y dyddiad hwnnw, ac erbyn 2016 roedd oddeutu 14.4 miliwn km². Mae hyn yn lleihad o 2.1 miliwn km² mewn 37 mlynedd. Dydy'r lleihad hwn ddim wedi bod yn raddol ond mae wedi anwladu bob blwyddyn, gan gynyddu a lleihau. Digwyddodd y lleihad mwyaf rhwng 2002 a 2006, pan nad oedd unrhyw gynnydd. [4]

Tudalen 78

1 Cyfrifwch y cynnydd yn y tymheredd byd-eang ar gyfartaledd rhwng 1880 a 2000. [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|-----------------------------|
| Rhowch 1 marc am yr ateb cywir ac 1 marc am gyfrifiad cywir | 14.4 – 13.5 [1], 0.9 °C [1] |

$$14.4 - 13.5 = 0.9 \text{ °C. [2]}$$

2 Disgrifiwch sut mae un darn o dystiolaeth, ac eithrio tymheredd yn codi, yn awgrymu bod yr hinsawdd yn newid. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Rhowch 1 marc am reswm dilys, a gellir rhoi 3 marc arall am ei ddatblygu | Enghreifftiau: Mae creiddiau iâ [1], o'r Antartig [1], yn dangos bod swm y carbon deuocsid (CO ₂) yn yr atmosffer wedi cynyddu [1], ers y Chwyldro Diwydiannol [1] Mae symudiad tymhorau [1], a'r gwanwyn yn cyrraedd yn gynt [1], yn achosi newidiadau i batrymau mudo adar [1], er enghraifft ciconiaid yn gaeafu yn ne Ewrop yn lle Affrica [1] Rhewlifoedd a llenni iâ yn toddi [1], mae Rhewlif Pasterze yn Awstria [1], wedi encilio 8 km yn y 160 mlynedd diwethaf [1], yn 2008 torrodd darn 400 km ² o iâ oddi ar len iâ'r Antartig [1] |



Yn gyffredinol, mae rhewlifoedd ym mhob rhan o'r byd yn encilio ac mae llenni iâ yn toddi wrth i'r hinsawdd gynhesu'n raddol. Mae tystiolaeth o hyn i'w gweld wrth i rai o lenni iâ mawr yr Antartig naill ai encilio neu dorri'n rhydd o'r cyfandir yn llwyr. Yn 2008, torrodd darn 400 km² o iâ oddi ar len iâ'r Antartig. Mae rhewlifoedd mewn dyffrynnoedd hefyd yn cael eu mesur i weld pa mor gyflym maen nhw'n encilio. Y Mer de Glace yn Alpau Ffrainc yw'r rhewlif mwyaf yn Ffrainc, ac mae'n 7 km o hyd. Mae wedi bod yn mynd yn fyrrach ac yn deneuach ers 1850. Mae'n encilio tua 30 metr y flwyddyn ac mae 500 metr yn fyrrach nag yr oedd yn 1994. [4]

3 'Gweithredoedd pobl yw prif achos newid hinsawdd diweddar.' I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad hwn? [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Dadansoddiad cytbwys a chasgliad soffistigedig. Gwneir amrywiaeth o bwyntiau manwl wedi'u datblygu o blaid ac yn erbyn y gosodiad. Mae'r casgliad wedi'i gyfiawnhau gan ddefnyddio cadwyn soffistigedig o ymresymu. Mae'r ystyr yn ddiamwys. Mae pwrpas clir i'r ymateb, mae'n groyw ac wedi'i strwythuro'n rhesymegol</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Dadansoddiad wedi'i ddatblygu a chasgliad rhesymegol. Gwneir amrywiaeth o bwyntiau wedi'u datblygu ar un neu'r ddwy ochr o'r ddadl. Casgliad rhesymegol a dilys sy'n seiliedig ar y dystiolaeth. Mae'r ystyr yn glir. Mae pwrpas i'r ymateb, mae'n drefnus ac wedi'i strwythuro'n dda.</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Dadansoddiad dilys ond cyfyngedig a chasgliad syml. Gwneir pwyntiau dilys ar un neu'r ddwy ochr i'r ddadl. Casgliad â chyfiawnhad cyfyngedig. Mae'r ystyr yn gyffredinol glir. Mae'r ymateb wedi'i strwythuro</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Dadansoddiad a chasgliad sylfaenol. Gwneir pwyntiau dilys ond sylfaenol hebeu datblygu rhyw lawer. Casgliad syml heb gyfiawnhad. Efallai bod yr ystyr yn aneglur mewn manau. Gosodiadau wedi'u cysylltu â strwythur sylfaenol</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Dylai'r ymatebion ddangos dealltwriaeth o sut gallai gweithredoedd pobl fod yn un o'r prif achosion o newid hinsawdd diweddar.</p> <p>Mae mwy a mwy o dystiolaeth yn dangos bod gweithredoedd pobl, er enghraifft y canlynol, yn ychwanegu at faint o nwyon tŷ gwydr sydd yn yr atmosffer: llosgi tanwyddau ffosil, datgoedwigo, dympio gwastraff mewn safleoedd tirlenwi a ffermio gwartheg yn fasnachol</p> <p>Mae mesuriadau'r Swyddfa Dywydd wedi dangos bod tymheredd y byd wedi codi 0.6 °C yn ystod y 100 mlynedd diwethaf ers y Chwyldro Diwydiannol. Mae Rhewlif Pasterze yn Awstria wedi encilio tua 8 km yn y 160 mlynedd diwethaf</p> <p>Nid yw pawb yn cytuno bod pobl yn achosi newid hinsawdd. Mae rhai pobl yn dweud bod llawer o bethau naturiol yn achosi newid hinsawdd, fel echdoriadau folcanig ac amrywiadau yn yr egni sy'n cael ei ryddhau gan yr Haul</p> <p>Gwnaeth Mynydd Pinatubo echdorri yn 1991, gan fwrw allan 10 km³ o ludw i'r atmosffer ynghyd â 15 miliwn tonnell o SO₂. Ar ôl hyn, fe wnaeth tymheredd y byd ostwng 0.5 °C</p> |

Mae hinsawdd y byd yn amrywio'n naturiol, er enghraifft o ganlyniad i newidiadau i orbit y Ddaear. Erbyn hyn, mae gennym dystiolaeth gref mai gweithgareddau dynol sy'n bennaf gyfrifol am newid hinsawdd diweddar. Mae'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd yn dweud mai gweithgareddau dynol yw'r prif beth sy'n achosi'r newidiadau hinsawdd rydyn ni wedi'u gweld yn y degawdau diwethaf.



Dros gyfnodau hir, mae oesau iâ yn dangos bod yr hinsawdd yn newid yn naturiol, efallai o ganlyniad i newidiadau i orbit y Ddaear. Daeth yr oes iâ ddiwethaf i ben tuag 11,000 o flynyddoedd yn ôl. Dros gyfnod byrrach, mae newidiadau fel y Cyfnod Cynnes Canoloesol wedi digwydd, ac yna gyfnod oerach sef yr Oes Iâ Fach. Gwnaeth Mynydd Pinatubo echdorri yn 1991, ac yn y flwyddyn ganlynol fe wnaeth tymheredd y byd ostwng 0.5 °C oherwydd yr holl ludw yn yr atmosffer. Felly, mae hinsawdd yn newid yn naturiol.

Yn y ganrif ddiwethaf, fodd bynnag, mae ein hinsawdd wedi dechrau newid yn gyflym iawn. Yn y 100 mlynedd diwethaf, mae'r Ddaear wedi cynhesu 0.6 °C. Mae gweithredoedd pobl yn ychwanegu at symiau'r nwyon tŷ gwydr sydd yn yr atmosffer drwy losgi tanwyddau ffosil, datgoedwigo, dympio gwastraff mewn safleoedd tirlenwi a ffermio dwys.

Mae'r dystiolaeth o gynhesu byd-eang yn cynnwys enciliad rhewlifol, er enghraifft mae Rhewlif Pasterze yn Awstria wedi encilio tua 8 km yn y 160 mlynedd diwethaf. Mae arsylwadau lloeren yn dangos bod iâ môr Arctig nawr yn lleihau ar gyfradd o un ar ddeg y cant bob degawd. Mae symudiad y tymhorau'n arwain at newidiadau ym mhatrymau mudo adar a phryfed.

Felly, er bod nifer bach o bobl yn credu mai ffactorau naturiol sy'n achosi newid hinsawdd, mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl mai bodau dynol sy'n achosi'r newid hwn. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod newid hinsawdd yn digwydd yn naturiol, ond mae'r newid diweddar mor ddramatig nes ei bod hi bron yn sicr mai pobl sydd wedi ei achosi. [8]

Tudalen 82

Esboniwrch pam mae systemau gwasgedd isel trofannol yn cael eu disgrifio fel y peryglon tywydd mwyaf dinistriol. [6]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| <p>Band 3 (5–6 marc): Yn dangos dealltwriaeth fanwl o systemau gwasgedd isel trofannol a'r dinistr maen nhw'n gallu ei achosi. Mae'r ystyr yn glir. Mae pwrpas i'r ymateb, mae'n drefnus ac wedi'i strwythuro'n dda.</p> | <p>Dylai'r ymatebion ddangos dealltwriaeth o pam mae systemau gwasgedd isel trofannol yn cael eu disgrifio fel y peryglon tywydd mwyaf dinistriol</p> <p>Dylai ymatebion Band 3 roi enghreifftiau i ategu'r ddealltwriaeth</p> <p>Ymhlith yr enghreifftiau mae:</p> <p>Mae buaneddau gwynt stormydd trofannol yn gallu cyrraedd dros 120 km/awr. Maen nhw'n rhoi glaw trwm sy'n gallu achosi llifogydd difrifol. Mae gwyntoedd uchel a gwasgedd isel yn creu tonnau mawr ac ymchwyddiadau storm (storm surges) sy'n gallu achosi llifogydd mewn ardaloedd arfordirol</p> <p>Ym mis Mawrth 2015, rhwygodd seiclun trofannol Pam drwy gadwyn ynysydd Vanuatu, de'r Cefnfor Tawel. Bu farw un ar ddeg o bobl, cafodd 90,000 eu gwneud yn ddigartref, cafodd 80 y cant o'r cnydau cynnal eu dinistrio, a chafodd ardaloedd arfordirol eu boddi gan ymchwydd storm gan halogi ffynhonnau dŵr croyw â dŵr môr</p> |
| <p>Band 2 (3–4 marc): Yn dangos dealltwriaeth o systemau gwasgedd isel trofannol a'r dinistr maen nhw'n gallu ei achosi. Mae'r ystyr yn gyffredinol glir. Mae'r ymateb wedi'i strwythuro</p> | |
| <p>Band 1 (1–2 marc): Gosodiadau syml yn dangos dealltwriaeth sylfaenol. Mae'n bosibl na fydd yr ateb yn ddigon eglur. Gosodiadau wedi'u cysylltu â strwythur sylfaenol</p> | |
| <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'n hollol amherthnasol</p> | |



Mae systemau gwasgedd isel trofannol ymhlith y systemau tywydd mwyaf pwerus a dinistriol ar y Ddaear. Mewn rhannau gwahanol o'r byd, mae stormydd trofannol yn cael eu galw'n gorwyntoedd, teiffwnau neu seiclonau. Mae buanedd y gwynt yn gallu bod dros 120 km/awr. Pan mae stormydd trofannol yn taro tir, maen nhw'n gallu achosi difrod enfawr. Llifogydd ac ymchwyddiadau storm sy'n achosi'r rhan fwyaf o'r difrod. Mae ymchwydd storm yn golygu bod lefel y môr yn codi ar y morlin oherwydd pŵer y storm. Mae stormydd trofannol hefyd yn achosi difrod, ac mae eu gwyntoedd cryf yn gallu chwythu coed i lawr a difrodi cartrefi.

Ym mis Mawrth 2015, rhwygodd seiclon trofannol Pam drwy gadwyn ynysoedd Vanuatu, de'r Cefnfor Tawel. Roedd Pam yn seiclon categori 5, ac roedd buanedd y gwynt wedi cyrraedd dros 250 km/awr. Bu farw un ar ddeg o bobl, cafodd 90,000 eu gwneud yn ddiartref, cafodd ysbytai ac ysgolion eu dinistrio gan y gwynt, cafodd 80 y cant o'r cnydau ymgynhaliol eu dinistrio, cafodd ardaloedd arfordirol eu boddi gan ymchwydd storm a chafodd ffynhonnau dŵr croyw eu halogi â dŵr môr. [6]


Tudalen 85

Anodwch y diagram i esbonio sut mae'r tymheredd a glawiad yn wahanol mewn ardaloedd trefol o'u cymharu ag ardaloedd gwledig. [4]


| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch farciau am bedwar gosodiad dilys, 1 marc yr un. Rhaid i o leiaf un gosodiad ymwneud â thymheredd a rhaid i o leiaf un ymwneud â glawiad | Tymereddau uwch [1], yn enwedig yn y nos [1], adeiladau'n amsugno gwres o'r haul [1], rhyddhau gwres drwy losgi tanwyddau ffosil [1] Mwy o lawiad darfudol [1], yn enwedig stormydd mellt a tharanau [1], tymereddau uwch yn arwain at fwy o ddarfudiad [1], mwy o ddiwrnodau sych oherwydd bod llai o leithder yn yr aer [1] |



Mae tymereddau'n uwch. Mae ynysoedd gwres trefol yn datblygu mewn amodau llonydd. Mae defnyddiau adeiladu'n amsugno gwres. Mae arwynebau ffyrdd tarmac yn amsugno llawer o wres oherwydd eu lliw tywyll. Mae gwres yn cael ei amsugno yn ystod y dydd ac yna ei ryddhau'n araf yn y nos. Mae cartrefi, ffatrioedd a cheir hefyd yn rhyddhau gwres



Mae ardaloedd trefol yn cael mwy o ddiwrnodau sych, oherwydd bod llai o leithder yn yr aer. Maen nhw'n cael mwy o lawiad pan mae hi'n bwrw glaw. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod ceryntau darfudiad, sy'n cael eu cynhyrchu gan dymereddau uwch, yn achosi glawiad darfudol a hefyd yn cynyddu'r siawns o stormydd mellt a tharanau



[4]





Tudalen 86

1 Defnyddiwch y map uchod i ddisgrifio dosbarthiad biom coedwig law drofannol. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| Rhowch farciau am bedwar gosodiad dilys, 1 marc yr un | Rhanbarthau trofannol [1], belt parhaus bron ar hyd y cyhydedd [1], glaswelltiroedd trofannol i'r gogledd a'r de [1], yr ardal fwyaf yn Ne/Canol America [1], enwi rhanbarth, er enghraifft Indonesia [1], meintioli, er enghraifft mae'r arwynebedd yn Ne America dros 4000 km × 4000 km |

Mae'r map yn dangos bod y coedwigoedd glaw trofannol wedi'u lleoli yn y trofannau, sef band o gwmpas y cyhydedd o 23.5°N (Trofan Cancr) i 23.5°S (Trofan Capricorn). Mae darnau mawr o goedwig law yn Ne America mewn gwledydd fel Brasil, yn ogystal â chanol Affrica mewn gwledydd fel y Congo, a De-Ddwyrain Asia mewn gwledydd fel Indonesia. [4]

2 Rhowch ddwy o nodweddion hinsawdd ecosystem coedwig law drofannol. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys, 1 marc yr un. Gellir datblygu'r gosodiadau hyn am hyd at ddau farc ychwanegol yr un. Felly, mae tair ffordd i ymgeiswyr ennill 4 marc (3+1, 2+2 neu 1+3) | Mae cyfanswm glawiad yn uchel [1], yn aml dros 2000 mm y flwyddyn [1], dim tymor sych [1] Mae'r tymheredd yn uchel [1], a'r cyfartaledd o gwmpas 25 °C [1], dim haf a gaeaf [1] |

Mae cynnes a gwlyb yn disgrifio hinsawdd coedwig law drofannol. Mae'r glawiad yn barhaus drwy gydol y flwyddyn ac mae'r cyfanswm yn aml yn mynd dros 2000 mm y flwyddyn. Mae'r tymheredd hefyd yn uchel drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r tymheredd yn ystod y dydd yn aml dros 25 °C. [4]

Tudalen 92

1 Disgrifiwch ddosbarthiad ecosystemau safana. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| Rhowch farciau am bedwar gosodiad dilys, 1 marc yr un | Mae'r rhain wedi'u lleoli i'r gogledd ac i'r de o fiomau coedwigoedd glaw trofannol [1], rhwng 5 a 15° i'r gogledd ac i'r de o'r cyhydedd [1], o fewn y trofannau [1], band llydan o gwmpas y glôb [1], yr ehangder mwyaf yn Affrica [1], enwi gwlad, er enghraifft Kenya [1], meintioli, er enghraifft belt parhaus ar draws Affrica sydd dros 6000 km o led mewn rhai manau [1] |

Mae glaswelltiroedd safana i'w cael o fewn y trofannau rhwng biom coedwig law drofannol a biom diffeithdir. Maen nhw wedi eu lleoli mewn band llydan o gwmpas y glôb tua 5–15° i'r gogledd ac i'r de o'r cyhydedd. Maen nhw i'w cael mewn gwledydd fel Brasil, Tanzania, India a gogledd Awstralia. [4]



2 Rhowch ddwy o nodweddion nodedig ecosystemau safana. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys, 1 marc yr un. Gellir datblygu'r gosodiadau hyn am hyd at ddau farc ychwanegol yr un. Felly, mae tair ffordd i ymgeiswyr ennill 4 marc (3+1, 2+2 neu 1+3) | <p>Ymhlith yr enghreifftiau:</p> <p>Mae gan yr hinsawdd dymor gwlyb a thymor sych amlwg [1], mae'r tymor gwlyb yn digwydd yn yr 'haf' â glaw darfudol trwm [1], mae'r tymheredd yn uchel drwy gydol y flwyddyn [1], yn amrywio rhwng 23 a 28 °C [1]</p> <p>Seroffytau a pyroffytau yw'r planhigion [1], mae'r llystyfiant yn cynnwys coed gwasgaredig [1], llwyni sy'n gwrthsefyll sychder [1] a glaswellt sy'n gallu tyfu hyd at 4 m o uchder [1]</p> <p>Yn cynnwys amrywiaeth enfawr o bryfed, adar ac anifeiliaid [1], mae hyn yn gwneud y safana yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid [1], yn cynnwys gyrrroedd mawr o anifeiliaid pori sy'n byw ar y gwair toreithiog [1]</p> |

Mae dau dymor gwahanol ar diroedd safana: tymor gwlyb a thymor sych. Ychydig iawn o law sydd yn y tymor sych. Wrth i chi symud yn bellach oddi wrth y cyhydedd a'i lawiad trwm, mae'r glaswelltir yn mynd yn sychach ac yn sychach. Mae'r tymheredd yn uchel drwy gydol y flwyddyn.

Mae planhigion wedi addasu i fyw yn y tymor sych ac mae rhai, fel y goeden baobab, yn storio dŵr yn eu boncyffion. Mae gan eraill, fel y goeden acasia, wreiddiau hir i gael dŵr sy'n ddwfn o dan ddaear. [4]



3 Esboniwch pam mae hinsawdd yn bwysig i ddatblygiad safana. [6]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| <p>Band 3 (5–6 marc): Yn dangos dealltwriaeth fanwl o bwysigrwydd hinsawdd i ddatblygiad safana. Mae'r ystyr yn glir. Mae pwrpas i'r ymateb, mae'n drefnus ac wedi'i strwythuro'n dda.</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd hinsawdd i ddatblygiad safana. Mae'r ystyr yn gyffredinol glir. Mae'r ymateb wedi'i strwythuro</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gosodiadau syml yn dangos dealltwriaeth sylfaenol. Mae'n bosibl na fydd yr ateb yn ddigon eglur. Gosodiadau wedi'u cysylltu â strwythur sylfaenol</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'n hollol amherthnasol</p> | <p>Dylai'r ymatebion ddangos dealltwriaeth o pam mae hinsawdd yn bwysig i ddatblygiad ecosystem safana</p> <p>Dylai ymatebion Band 3 roi enghreifftiau i ategu'r ddealltwriaeth</p> <p>Mae dau dymor gwahanol mewn ardaloedd safana: tymor gwlyb a thymor sych. Yn y tymor gwlyb mae planhigion yn tyfu, yn enwedig gweiriau, hyd at uchder o 4 m. Mae planhigion ac anifeiliaid yn addasu i'r cyfnodau sych hir. Seroffytau yw llawer o'r planhigion, er enghraifft, y goeden acasia â'i dail bach, cwyradd a'i drain. Mae rhai planhigion hefyd yn storio dŵr, fel y goeden baobab, neu'n tyfu gwreiddiau hir i gyrraedd y lefel trwythiad. Efallai y bydd anifeiliaid yn mudo dros bellteroedd mawr i chwilio am fwyd a dŵr. Mae llawer o rywogaethau llysysol yn bwydo ar y glaswelltiroedd, er enghraifft y sebra. Yn eu tro, mae cigysyddion fel y llew wedi esblygu i hela'r llysysyddion a'u bwyta nhw</p> |

Mae gan fïom y safana dymhorau gwlyb a sych amlwg. Ychydig iawn o goed sy'n gallu goroesi'r tymor sych, ond mae gweiriau'n ffynnu. Oherwydd bod gwair ar gael, mae llawer o anifeiliaid pori'n manteisio ar y cyflenwad bwyd toreithiog hwn. Mae llawer o llysysyddion yn byw yn y bïom safana, fel eliffantod, sebraod, gaseliad a byfflo. Mae'r llawer o llysysyddion yn y safana yn denu llawer o gigysyddion. Mae'r llysysyddion wedi datblygu nodweddion sy'n eu helpu nhw i ddianc rhag ysglyfaethwyr fel bod yn gyflym, yn fawr neu'n dal. Mae anifeiliaid yn teithio pellteroedd mawr i chwilio am fwyd a dŵr.

Mae'n rhaid i blanhigion ac anifeiliaid addasu i'r cyfnodau sych hir. Mae llawer o blanhigion yn seroffytau, er enghraifft y goeden acasia â'i dail bach, cwyradd a'i drain. Mae rhai planhigion hefyd yn storio dŵr, fel y goeden baobab, neu'n tyfu gwreiddiau hir i gyrraedd y lefel trwythiad fel y goeden acasia. [6]



Tudalen 95

Disgrifiwch sut mae patrymau glawiad wedi newid yn rhanbarth y Sahel rhwng 1950 a 2010. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch farciau am bedwar gosodiad dilys, 1 marc yr un | Glawiad cyfartalog wedi lleihau [1], rhwng 1950 ac 1967 roedd glawiad mwy na'r cyfartaledd bob blwyddyn [1], rhwng 1965 a 2010 dim ond deg mlynedd sydd wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd [1], rhwng 1979 ac 1987 cyfnod parhaus o lawiad llai na'r cyfartaledd [1], 1983/84 oedd â'r glawiad lleiaf [1], meintoli, er enghraifft 4 cm/mis yn is na'r cyfartaledd yn 1983/84 [1] |

Mae glawiad yn y Sahel yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Ers 1970, mae'r cyfansymiau wedi lleihau'n gyffredinol. Rhwng 1950 ac 1970, roedd cyfansymiau glawiad yn gyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd tymor hir. Ers 1970 mae'r cyfansymiau yn gyffredinol wedi bod yn is na'r cyfartaledd tymor hir, gyda rhai eithriadau fel yn 1994 ac 1999. Yn y cyfnod 1980 tan 1987, roedd y cyfansymiau glawiad yn arbennig o isel, bron 4 cm/mis yn is yn 1984. [4]

Tudalen 97

Rhowch ddwy ffordd gynaliadwy o ddefnyddio coedwig law. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys, 1 marc yr un Gellir datblygu'r gosodiadau hyn am hyd at ddau farc ychwanegol yr un. Felly, mae tair ffordd i ymgeiswyr ennill 4 marc (3+1, 2+2 neu 1+3) | Amaeth-goedwigaeth [1], tyfu coed a chnydau ar yr un pryd [1] Coedwigo dethol [1], dim ond torri coed o rywogaeth neu oed penodol [1], mae'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd rhyngwladol yn sicrhau hyn [1] Gwarchodfeydd coedwig [1], gwarchod darnau o goedwig [1], er enghraifft Parc Cenedlaethol Alto Maués ym Mrasil [1], coridorau bywyd gwyllt yn cysylltu darnau darniog o dir [1] Annog ecodwristiaeth [1], math proffidiol iawn o dwristiaeth sy'n dibynnu ar warchod y goedwig [1] Cyfnewid dyled am natur [1], mae gwledydd tlawd yn gallu 'cyfnewid' dyled â gwlad gyfoethog os ydyn nhw'n gwarchod darn o goedwig law [1] |

Mae'n bosibl sefydlu gwarchodfeydd coedwig i warchod y planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig law. Un enghraifft o warchodfa fel hyn yw Parc Cenedlaethol Alto Maués ym Mrasil sy'n cynnwys dros 600,000 hectar o goedwig law'r Amazon.

Yn y blynyddoedd diwethaf, wrth i bobl chwilio am wyliau mwy ecsotig, mae ecodwristiaeth wedi tyfu. Mae ecodwristiaid yn hoff o ymweld â'r goedwig law a chyfarfod â'i bywyd gwyllt a'i phobl. Maen nhw'n dod ag arian i'r lleoedd maen nhw'n ymweld â nhw. Os caiff y goedwig ei chlirio, fyddan nhw ddim eisiau dod. Mae eco-lety Yachana yng nghoedwig law'r Amazon yn un enghraifft o ddatblygiad ecodwristiaeth. [4]



Thema 6

Tudalen 100

1 Disgrifiwch y berthynas rhwng marwolaethau babanod ac IGC y pen. [3]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Rhowch farciau am dri gosodiad dilys, 1 marc yr un | Cyberthyniad negatif [1], mae marwolaethau babanod yn cynyddu wrth i IGC y pen ostwng [1], mae'r berthynas yn esbonyddol [1], er enghraifft yn Norwy mae'r IGC y pen yn US\$94,000 ac mae dau faban yn marw o bob 1000 o enedigaethau byw [1] |

Wrth i'r IGC y pen gynyddu, mae nifer marwolaethau babanod yn lleihau. Er enghraifft, mae gan Weriniaeth Canolbarth Affrica IGC y pen o US\$1000 ac mae nifer y marwolaethau babanod yn 95, ac yn Norwy mae'r IGC y pen yn US\$94,000 ac mae nifer y marwolaethau babanod yn ddau. Mae'r berthynas yn dangos lleihad esbonyddol mewn marwolaethau babanod wrth i IGC gynyddu. [3]

2 Awgrymwch ddau reswm i esbonio'r berthynas hon. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys, 1 marc yr un Gellir datblygu'r gosodiadau hyn am hyd at ddau farc ychwanegol yr un. Felly, mae tair ffordd i ymgeiswyr ennill 4 marc (3+1, 2+2 neu 1+3) | Mae gan wledydd ag IGC y pen isel lai o arian i'w wario ar iechyd [1], mae'r gofal iechyd yn waeth yno [1], llai o feddygon ac ysbytai [1], dim meddyginiaeth fodern [1] Mae gwledydd ag IGC y pen isel yn aml yn dibynnu ar amaethyddiaeth ymhynhaliol [1], dydy'r cyflenwadau bwyd ddim yn ddibynadwy [1], mae maethiad gwael (diffyg maeth) ymysg babanod [1], sy'n eu gwneud nhw'n fwy agored i glefyd [1] Mewn gwledydd ag IGC y pen isel, yn aml mae'r llywodraethau'n wan [1], maen nhw'n methu darparu dŵr glân i dai pobl [1], nac iechydaeth ddigonol [1], sy'n arwain at ledaeniad clefydau [1] |

Mae gan wledydd ag IGC uwch fwy o arian i'w wario ar bethau fel gofal iechyd. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n gallu gofalu'n well am famau pan maen nhw'n feichiog a phan maen nhw'n rhoi genedigaeth. Mae gofal iechyd gwell hefyd ar gael i fabanod ac, er enghraifft, gellir rhoi brechiadau iddyn nhw rhag clefydau fel polio.

Mae'n debyg y bydd gan wledydd ag IGC isel gyflenwad bwyd gwael. Efallai y bydd ganddynt economi gynhaliath lle mae ffermwyr yn tyfu bwyd i'w teuluoedd. Efallai na fydd y cyflenwadau bwyd yn ddibynadwy, ac efallai na fydd deiet y plant yn rhoi'r holl brotein a fitaminau sydd eu hangen arnynt. [4]



Tudalen 105

- 1 Awgrymwch un ffordd arall o gynrychioli'r wybodaeth sydd wedi'i dangos yn y graff uchod. Rhaid i chi gyfiawnhau eich dewis. [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch 1 marc am un ffordd arall ddilys a marc ychwanegol am ei chyfiawnhau | Graff bar [1], hawdd ei ddeall [1] Graff bar wedi'i rannu [1], hawdd ei gymharu [1] Graff gwasgariad [1], dangos newidiadau'n effeithiol [1] |

Gellid defnyddio bar graff i gynrychioli'r wybodaeth yn y graff, gan luniadu bar ar gyfer pob cyfnod pum mlynedd. Byddai graff bar yn hawdd ei ddeall ac yn dangos y wybodaeth yn glir. [2]

- 2 Cymharwch y newid rhwng CMC y pen Malaŵi ac India. [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys, 1 marc yr un. Dim ond gosodiadau sy'n cymharu sy'n dderbyniol. | Mae cynnydd mawr mewn CMC wedi bod yn India, ond nid yw'r CMC wedi newid rhyw lawer ym Malaŵi rhwng 1985 a 2015 [1], mae CMC ym Malaŵi wedi lleihau ar ôl 2010 ac mae'r CMC yn India yn cynyddu'n gyson [1], dechreuodd CMC yn India ddangos cynnydd cyflym ar ôl 2000, dechreuodd CMC ym Malaŵi hefyd gynyddu'n gyflymach hyd at 2010 yna lleihaodd [1], meintioli [1] |

Mae'r CMC y pen wedi cynyddu llawer mwy yn India nag ym Malaŵi. Yn 1985, roedd gan Malaŵi CMC y pen o tua US\$150 ac roedd gan India CMC y pen o tua US\$300. Yn 2015, roedd gan Malaŵi CMC y pen o tua US\$200 ac roedd India wedi gweld cynnydd mawr i tua US\$1600. Ers 2010, mae'r CMC y pen ym Malaŵi wedi lleihau ond mae'r CMC y pen yn India wedi parhau i gynyddu. [2]

- 3 Awgrymwch ffyrdd y gallai'r graff fod yn gamarweiniol. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| Rhowch farciau am bedwar gosodiad dilys, 1 marc yr un | Mae CMC y pen yn mesur cyfanswm allbwn gwlad wedi'i rannu â nifer y bobl sy'n byw yn y wlad [1], gallai'r ffigur ar gyfer nifer y bobl fod yn anghywir heb gyfrifiad cywir [1], ddim yn ystyried economïau cynhaliaeth neu economïau anffurfiol sy'n bwysig iawn mewn gwledydd llai datblygedig [1], gallu cuddio anghydraddoldebau mewn gwlad gan ei fod yn ffigur cyfartalog sydd ddim yn dangos dosbarthiad cyfoeth [1], gall llywodraethau ffugio'r ffigurau i edrych yn dlawd er mwyn casglu mwy o gymorth [1] |




Mae India yn wlad fawr iawn. Ffigur cyfartalog yw'r CMC y pen, felly mewn rhai rhannau o India gallai'r CMC y pen fod yn llawer uwch na'r ffigur cyfartalog, ac mewn rhai rhannau gallai fod yn llawer is na'r ffigur cyfartalog. Mae Malaŵi yn wlad dlawd ac mae'n bosibl na fyddai ganddi'r adnoddau i gasglu data manwl gywir am ei phoblogaeth. Mae'n bosibl hefyd y byddai'n rhyddhau data anghywir er mwyn ceisio cael mwy o gymorth gan wledydd cyfoethocach. Mae ffermwyr ymgynhaliol yn y ddwy wlad, a dydy allbwn y ffermydd hyn ddim yn cael ei ystyried wrth gyfrifo CMC. [4]

Tudalen 107

- 1 Lluniadwch graff addas i ddangos y wybodaeth yn y tabl isod. Rhaid i chi gyfiawnhau eich dewis o graff. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch 3 marc am graff cywir. Rhowch 1 marc am gyfiawnhad | Enghreifftiau: Mae graff bar yn hawdd ei luniadu a'i ddeall [1] Mae graff llinell yn dangos yn glir sut mae'r wybodaeth yn newid [1] Mae ideograff yn ddiddorol ac os yw'n defnyddio eicon llong mordeithio bydd yn cael effaith ar unwaith [1] |



Mae graff bar yn hawdd ei luniadu a'i ddeall. [4]

- 2 Disgrifiwch y duedd sy'n cael ei dangos ar eich graff. [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys, 1 marc yr un Gallai enghraifft gynnwys cymhariaeth rifiadol megis cynyddu 1.5 miliwn rhwng 1990 ac 1995 ac 8.5 miliwn rhwng 2010 a 2015 | Cynyddu [1], cynyddu ar gyfradd sy'n cynyddu [1], enghraifft [1] |

Mae nifer y teithwyr ar longau mordeithio wedi cynyddu. Yn 1990, roedd 4 miliwn o bobl yn teithio ar longau mordeithio, a 25 mlynedd yn ddiweddarach yn 2015 roedd y ffigur hwn wedi cynyddu 21 miliwn i 25 miliwn o bobl. [2]



3 Rhowch ddau reswm i esbonio'r duedd hon. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys, 1 marc yr un. Gellir datblygu'r gosodiadau hyn am hyd at un marc ychwanegol yr un | <p>Mwy o gyfoeth [1], mae gan bobl fwy o arian i'w wario ar weithgareddau hamdden [1]</p> <p>Mwy o amser hamdden [1], mae pobl yn aml yn mynd ar fwy nag un gwyliau mewn blwyddyn [1]</p> <p>Llongau mordeithio newydd [1], â llawer o gyfleusterau newydd [1]</p> <p>Cyrchfannau newydd [1], sy'n rhoi mwy o ddewis i bobl [1]</p> <p>Mwy o ymwybyddiaeth oherwydd teledu a chyfryngau cymdeithasol [1], yn cynyddu'r galw [1]</p> <p>Poblogaeth sy'n heneiddio/ymddeol yn gynnar [1], mae mordeithio'n arbennig o addas i deithwyr hŷn [1]</p> |

Mae poblogaeth y gwledydd mwy cyfoethog yn heneiddio ac mae mordeithio'n fwy deniadol i bobl hŷn. Mae moethusrwydd ystafell mewn gwesty yn teithio gyda'r teithiwr. Mae'n ffordd ddiogel o fynd ar wyliau gyda'r holl gyfleusterau y byddai eu hangen ar westai i gyd mewn un lle, ac yn hawdd eu defnyddio.

Mae llawer o longau mordeithio newydd wedi cael eu hadeiladu yn y blynyddoedd diwethaf ag amrywiaeth wych o gyfleusterau ar eu bwrdd, o siopa i gyfleusterau chwaraeon i adloniant o'r safon uchaf. Mae'r llongau mordeithio hyn yn apelio at bob math o bobl ac mae ymgyrchoedd marchnata wedi cynyddu'r galw. [4]



Tudalen 110

Trafodwch sut gallai cael cymorth rhyngwladol wella bywydau'r bobl sy'n byw yn y gwledydd lleiaf datblygedig. [8]

Bydd cywirdeb eich ysgrifennu yn cael ei asesu yn eich ateb i'r cwestiwn hwn. [3]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Dealltwriaeth drwyadl o sut gallai cymorth wella bywydau'r bobl sy'n byw yn y gwledydd lleiaf datblygedig. Defnyddir enghreifftiau penodol a manwl. Mae'r ystyr yn ddiamwys. Mae pwrpas clir i'r ymateb, mae'n groyw ac wedi'i strwythuro'n rhesymegol</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Dealltwriaeth drwyadl o sut gallai cymorth wella bywydau'r bobl sy'n byw yn y gwledydd lleiaf datblygedig. Yn cyfeirio at enghreifftiau. Mae'r ystyr yn glir. Mae pwrpas i'r ymateb, mae'n drefnus ac wedi'i strwythuro'n dda.</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Dealltwriaeth o sut gallai cymorth wella bywydau pobl. Yr ymateb yn cynnwys rhai enghreifftiau. Mae'r ystyr yn gyffredinol glir. Mae'r ymateb wedi'i strwythuro</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gosodiadau syml sy'n dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r mater. Efallai bod yr ystyr yn aneglur mewn manau. Gosodiadau wedi'u cysylltu â strwythur sylfaenol</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Dylai'r ymatebion ddangos dealltwriaeth o sut gallai cael cymorth rhyngwladol wella bywydau'r bobl sy'n byw yn y gwledydd lleiaf datblygedig</p> <p>Ystyr cymorth yw trosglwyddo adnoddau o wlad fwy cyfoethog i wlad fwy tlawd. Mae hyn yn cynnwys arian, offer, hyfforddiant a benthyciadau. Mae projectau ar raddfa fawr yn rhoi hwb i'r broses ddatblygu. Mae projectau ar raddfa fach yn gweithio gyda phobl leol ac yn defnyddio sgiliau lleol</p> <p>Mae COVAMS yn broject deg mlynedd, wedi'i ariannu gan lywodraeth Japan, ym Malaŵi. Nod y project yw atal erydiad pridd drwy addysgu pobl am yr hyn sy'n achosi erydiad pridd, hyfforddi ffermwyr i aredig o gwmpas ymylon bryniau, adeiladu rhwystrau o graig, pren a bambŵ ar draws nentydd i arafu llif dŵr, adeiladu terasau ar ochrau bryniau i leihau'r dŵr ffo ar yr arwyneb a chyflenwi rhywogaethau coed sy'n tyfu'n gyflym i gyflymu ailgoedwigo</p> |

Ar ôl rhoi band a marc i'r ymateb daearyddol, defnyddiwch y disgrifiadau perfformiad isod ar gyfer ysgrifennu'n gywir. Ar ôl penderfynu ar y band, rhowch ail marc allan o 3 marc.



| Band | Marciau | Disgrifiadau perfformiad ar gyfer ysgrifennu'n gywir |
|-----------|---------|--|
| Uchel | 3 | <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwyr yn sillafu ac yn atalnodi gyda chywirdeb cyson. Mae'r dysgwyr yn defnyddio rheolau gramadeg ac mae ganddynt reolaeth effeithiol dros ystyr ar y cyfan. Mae'r dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth eang o dermau arbenigol fel y bo'n briodol. |
| Canolradd | 2 | <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwyr yn sillafu ac yn atalnodi gyda chryn gywirdeb. Mae'r dysgwyr yn defnyddio rheolau gramadeg ac mae ganddynt reolaeth gyffredinol dros ystyr ar y cyfan. Mae'r dysgwyr yn defnyddio amrediad da o dermau arbenigol fel y bo'n briodol. |
| Trothwy | 1 | <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwyr yn sillafu ac yn atalnodi â chywirdeb rhesymol. Mae'r dysgwyr yn defnyddio rheolau gramadeg gyda rhywfaint o reolaeth dros ystyr ac nid yw unrhyw wallau yn llesteirio'r ystyr yn gyffredinol. Mae dysgwyr yn defnyddio amrediad cyfyngedig o dermau arbenigol fel y bo'n briodol. |
| Dim | 0 | <ul style="list-style-type: none"> Nid yw'r dysgwr yn ysgrifennu dim. Nid yw ymateb y dysgwr yn berthnasol i'r cwestiwn. Nid yw cyrhaeddiad y dysgwr o ran ysgrifennu'n gywir yn cyrraedd y lefel drothwy o berfformiad, er enghraifft mae gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg yn llesteirio'r ystyr yn ddifrifol. |

Mae cymorth rhyngwladol yn ffordd i un wlad helpu un arall, i un unigolyn helpu un arall, neu i elusen (sefydliadau anllywodraethol) helpu gwlad. Gellir rhoi cymorth tymor byr ar gyfer argyfyngau neu roi cymorth datblygiad sy'n fwy tymor hir ac yn ceisio helpu pobl mewn gwledydd tlotach i godi eu safon byw. Mae cymorth yn cynnwys arian, offer, hyfforddiant a benthyciadau.

Bwriad cymorth datblygiad yw rhoi hwb i ddechrau'r broses ddatblygu. Un enghraifft fyddai adeiladu argae i ddarparu dŵr yfed a phŵer trydan dŵr, fel argae Inga 3 ar afon y Congo a ariannwyd gan Fanc y Byd. Mae projectau ar raddfa fach yn gweithio gyda phobl leol ac yn defnyddio sgiliau lleol, er enghraifft ym Malaŵi mae WaterAid (sefydliad anllywodraethol) yn cefnogi cymunedau i drwsio pypiau llaw sydd wedi torri, gwella arferion hylendid a hyfforddi pobl i gynnal eu hadnoddau eu hunain. Mewn pentrefi heb doiled, mae WaterAid yn helpu i adeiladu toiledau compost syml sy'n cadw ffynonellau dŵr yn lân ac sydd hefyd yn darparu gwrtaith ar gyfer cynydu.

Mae *Community Vitalization and Afforestation in Middle Shire (COVAMS)* yn broiect arall ym Malaŵi. Mae hwn yn broiect deg mlynedd sy'n cael ei ariannu gan lywodraeth Japan. Nod y project yw atal erydiad pridd drwy addysgu pobl am yr hyn sy'n achosi erydiad pridd, hyfforddi ffermwyr i aredig o gwmpas ymylon bryniau, gan arafu dŵr ffo ar yr arwyneb, adeiladu rhwystrau o graig, pren a bambŵ ar draws nentydd i arafu llif dŵr, adeiladu terasau ar ochrau bryniau i leihau'r dŵr ffo ar yr arwyneb a chyflenwi rhywogaethau coed sy'n tyfu'n gyflym i gyflymu ailgoedwigo.

Dydy pawb ddim yn cytuno bod cymorth yn gwella bywydau'r bobl sy'n byw yn y gwledydd lleiaf datblygedig. Mae pobl leol yn gallu colli eu tir i broiectau mawr fel argaeau. Mae projectau mawr yn aml yn rhan o gymorth clwm, lle mae'n rhaid i'r wlad ad-dalu benthyciadau neu adael i wledydd cyfoethocach ddefnyddio ei hadnoddau. Yn aml, caiff swyddi pwysig o fewn projectau cymorth eu rhoi i dramorwyr gan nad oes gan y bobl leol y sgiliau priodol. Mae llawer o safbwyntiau o blaid ac yn erbyn rhoi cymorth, ac ynglŷn ag a yw cymorth yn beth da ai peidio. [8 + 3 am ysgrifennu'n gywir]



Tudalen 112

Rhowch ddau reswm i esbonio pam mae cynnydd wedi bod yn y ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio'n fyd-eang. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys, 1 marc yr un. Gellir datblygu'r gosodiadau hyn am hyd at ddau farc ychwanegol yr un. Felly, mae tair ffordd i ymgeiswyr ennill 4 marc (3+1, 2+2 neu 1+3) | Maint poblogaeth y byd wedi cynyddu [1], defnyddio mwy o ddŵr i yfed, coginio, golchi a glanhau [1] Lefel uwch o ddatblygiad economaidd [1], defnyddio mwy o ddŵr mewn diwydiant [1], er enghraifft fel oerydd yn y diwydiant dur [1], defnyddio mwy o ddŵr mewn amaethyddiaeth [1], er enghraifft ysgeintellau [1], defnyddio mwy o ddŵr yn y cartref ac ar gyfer hamdden [1], er enghraifft pyllau nofio [1] |

Mae dau reswm pam mae mwy o ddŵr yn cael ei ddefnyddio yn fyd-eang. Yn gyntaf, mae nifer y bobl yn y byd yn cynyddu. Yn 2000 roedd 6 biliwn o bobl yn y byd, heddiw mae dros 7 biliwn. Mae pobl yn defnyddio ddŵr i yfed, ymolchi a thyfu'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta. Yn ail, wrth i wledydd ddatblygu a mynd yn fwy cyfoethog, mae'r bobl yn y gwledydd hynny'n defnyddio mwy o ddŵr at ddibenion hamdden, er enghraifft pyllau nofio a chyrsiau golff, a hefyd ar ffermydd lle mae systemau dyfrhau ac ysgeintellau'n defnyddio symiau enfawr o ddŵr. [4]



Tudalen 115

Esboniwch pam mae'r galw am ddŵr yn uwch mewn gwledydd incwm uchel na gwledydd incwm isel. [6]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| <p>Band 3 (5–6 marc): Yn dangos dealltwriaeth fanwl o'r rhesymau dros y galw uwch am ddŵr mewn gwledydd incwm uchel. Mae'r ystyr yn glir. Mae pwrpas i'r ymateb, mae'n drefnus ac wedi'i strwythuro'n dda.</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Yn dangos dealltwriaeth o'r rhesymau dros y galw uwch am ddŵr mewn gwledydd incwm uchel. Mae'r ystyr yn gyffredinol glir. Mae'r ymateb wedi'i strwythuro</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gosodiadau syml yn dangos dealltwriaeth sylfaenol. Mae'n bosibl na fydd yr ateb yn ddigon eglur. Gosodiadau wedi'u cysylltu â strwythur sylfaenol</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'n hollol amherthnasol</p> | <p>Dylai'r ymatebion ddangos dealltwriaeth pam mae galw uwch am ddŵr mewn gwledydd incwm uchel</p> <p>Dylai ymatebion Band 3 roi enghreifftiau i ategu'r ddealltwriaeth</p> <p>Ymhlith yr enghreifftiau mae:</p> <p>Mae'r dŵr sy'n cael ei ddefnyddio'n fyd-eang wedi bod yn cynyddu dros amser. Mae ôl troed dŵr gwledydd incwm uchel yn llawer mwy na gwledydd incwm isel</p> <p>Mewn gwledydd cyfoethog, mae amaethyddiaeth yn aml yn fecanyddol ac mae systemau dyfrhau ac ysgeintellau'n defnyddio symiau enfawr o ddŵr. Mae gan wledydd mwy cyfoethog fwy o ddiwydiannau fel dur sy'n defnyddio symiau enfawr o ddŵr. Mae twf prynwriaeth wedi arwain at ddefnyddio mwy o ddŵr, gan fod offer fel peiriannau golchi llestri a chawodydd mewn llawer o gartrefi. Hefyd, mae mwy o ddŵr yn cael ei ddefnyddio yn y diwydiant hamdden mewn mannau fel pyllau nofio a chyrсияu golff</p> <p>Mae'r teulu cyfartalog yn UDA yn defnyddio tua 500 galwyn o ddŵr y dydd, sydd 100 gwaith yn fwy na'r teulu Affricanaidd cyfartalog mewn gwlad fel Mali</p> |

Wrth i wlad fynd yn fwy cyfoethog, bydd mwy o alw am ddŵr yno. Mae gwledydd incwm uchel yn fwy diwydiannol ac mae mwy o alw am ddŵr ar gyfer diwydiant. Mae'r galw am ddŵr ar gyfer amaethyddiaeth hefyd yn gallu bod yn uwch mewn gwledydd incwm uchel, er bod mwy o ffermwyr mewn gwledydd incwm isel, gan fod y ffermio'n fecanyddol a bod ysgeintellau'n defnyddio symiau enfawr o ddŵr. Mewn gwledydd incwm uchel, mae pobl yn defnyddio llawer mwy o ddŵr at ddibenion domestig. Mae angen defnyddio dŵr ar gyfer llawer o gyfleusterau, fel cawodydd, peiriannau golchi a phyllau nofio. Gyda mwy o gyfoeth, mae mwy o alw am ddŵr hefyd at ddibenion hamdden ar gyfer sbâu, cyrsiau golff a hyd yn oed pyllau nofio.


Mewn gwledydd incwm isel, does dim dŵr mewn pibellau ar gael i lawer o bobl. Yn Affrica is-Sahara, er enghraifft, mewn gwledydd fel Mali, mae pobl yn treulio oriau yn cerdded i gasglu dŵr ac maen nhw'n defnyddio llai o ddŵr yn y cartref. Mewn ardaloedd trefol, mae pobl sy'n byw mewn trefi sianti yn aml yn gorfod prynu dŵr gan werthwyr stryd, ac maen nhw weithiau'n talu hyd at 50 gwaith yn fwy am y dŵr na'r hyn mae pobl sy'n byw yn ninasoedd Ewrop yn ei dalu. Mae'r teulu cyfartalog yn UDA yn defnyddio tua 500 galwyn o ddŵr y dydd, ac ym Mali mae'r ffigur hwnnw'n bump galwyn y dydd. [6]



Tudalen 117

1 Dangoswch y wybodaeth hon gan ddefnyddio graff addas. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch 1 marc am ddewis graff addas a 3 marc am ei lunio'n gywir | Mae graff bar, pictogram neu siart cylch yn addas Echelinau cywir gyda labeli [1], teitl [1], graff cywir [1] |



[4]

2 Awgrymwch ddau reswm i esbonio pam mae canran mawr o boblogaeth Bihar yn India yn byw mewn tlodi. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys Gellir datblygu'r gosodiadau hyn am hyd at ddau farc ychwanegol yr un. Felly, mae tair ffordd i ymgeiswyr ennill 4 marc (3+1, 2+2 neu 1+3) | Mae llawer o bobl yn gweithio mewn amaethyddiaeth [1], mae'r ffermydd yn fach a dydyn nhw ddim yn cynhyrchu llawer mwy nag sydd ei angen ar deulu i oroesi [1], mae llawer o bobl heb dir yn gweithio fel llafurwyr ar ffermydd ac yn cael tâl gwael [1] Mae'r llywodraeth yn fwy llwgr nag mewn mannau eraill yn India [1], does dim llawer o arian i wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill [1] Mae addysg yn wael [1], mae pobl yn methu dod o hyd i swyddi sy'n talu'n dda [1] Mae cyfradd genedigaethau'n uchel [1], felly mae angen bwydo mwy o blant [1] |

Talaith yng ngogledd-ddwyrain India yw Bihar. Mae'n un o'r taleithiau tlotaf yn India oherwydd mae'r llywodraeth yno'n fwy llwgr nag mewn rhannau eraill o India a does dim llawer o arian yn cael ei roi i wasanaethau fel addysg. Mae llawer o'r bobl yn Bihar yn ffermwyr ymgynhaliol sy'n cynhyrchu digon o fwyd i fwydo eu teuluoedd yn unig, neu'n llafurwyr heb dir sy'n cael tâl gwael. [4]



Tudalen 118

Enwch y broses sy'n arwain at amrywiaeth ehangach o weithgareddau economaidd. Tanlinellwch yr ateb cywir o'r geiriau canlynol: dad-ddiwydianeiddio, adfywio, arallgyfeirio. [1]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|----------------------|
| Rhowch y marc am yr ymateb hwn yn unig | Arallgyfeirio [1] |

Dad-ddiwydianeiddio, adfywio, arallgyfeirio. [1]

Tudalen 121

1 Rhowch gyfeirnod grid pedwar rhif ar gyfer lleoliad Canolfan Ddosbarthu Amazon. [1]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|----------------------|
| Rhowch y marc am yr ymateb hwn yn unig | 9637 [1] |

9637. [1]

2 Rhowch ddau reswm i esbonio pam cafodd y safle hwn ei ddewis gan Amazon ar gyfer canolfan ddosbarthu. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| Rhowch farciau am ddau osodiad dilys, 1 marc yr un. Gellir datblygu'r gosodiadau hyn am hyd at ddau farc ychwanegol yr un. Felly, mae tair ffordd i ymgeiswyr ennill 4 marc (3+1, 2+2 neu 1+3) | Tir ar oledd graddol [1], haws adeiladu warws mawr [1], sydd ei angen i storio'r amrywiaeth eang o nwyddau mae Amazon yn eu gwerthu [1] Agos at briffyrdd [1], er enghraifft yr M1 sy'n cysylltu â'r rhwydwaith traffyrdd [1], haws cludo a danfon nwyddau [1] Pentrefi cyfagos [1], er enghraifft Aspley Guise [1], yn darparu gweithwyr i Amazon [1] |

Mae llawer o briffyrdd yn agos, fel yr M1. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n hawdd i Amazon ddanfon eu nwyddau i bob rhan o'r wlad. Hefyd, mae'r tir yma'n eithaf gwastad ac mae hyn yn ei gwneud hi'n haws adeiladu'r warws mawr sydd ei angen i storio'r holl nwyddau mae Amazon yn eu gwerthu. [4]



Thema 7

Tudalen 123

- 1 Mae cyfradd llythrennedd oedolion yn ddangosydd datblygiad cymdeithasol. Disgrifiwch beth sy'n cael ei fesur gan y dangosydd hwn. [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| Rhowch 1 marc am bob gosodiad dilys hyd at 2 farc | Canran yr oedolion mewn gwlad sy'n gallu darllen ac ysgrifennu gyda dealltwriaeth [1], ar gyfer y dangosydd hwn mae oedolyn yn cael ei ddsbarthu fel unrhyw un dros bymtheg oed [1] |

Mae cyfradd llythrennedd oedolion yn cyfeirio at nifer yr oedolion sy'n gallu darllen ac ysgrifennu gyda dealltwriaeth. [1]

- 2 Esboniwch pam mae pobl yn defnyddio'r term 'continwwm datblygiad cymdeithasol'. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| <p>Band 2 (3–4 marc): Esboniad o'r term continwwm datblygiad cymdeithasol gan roi rhesymau pam mae hyn yn ffordd dda o edrych ar ddatblygiad cymdeithasol</p> <p>Band 1 (1–2 farc): Rhoi diffiniad syml o'r term ond heb lawer o resymau dros ei fuddion</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | Bydd angen i ymgeiswyr esbonio'r term continwwm datblygiad cymdeithasol fel rhan o'u hateb – 'ffordd o feddwl am ddatblygiad cymdeithasol fel proses barhaus ddi-ddiwedd'. Byddai'r esboniad yn awgrymu ei bod hi'n anghywir dweud bod gwledydd naill ai'n iach neu'n afiach, er enghraifft, ond y gellir eu rhoi nhw ar gontinwwm i'w cymharu nhw â'i gilydd |

Mae pobl yn defnyddio'r term continwwm datblygiad cymdeithasol am ei fod yn ffordd gywirach o feddwl am ddatblygiad. Os ydyn ni'n defnyddio dangosydd disgwylid oes fel enghraifft: os yw disgwylid oes yn 79 mewn un wlad ac yn 49 mewn gwlad arall, bydden ni'n naturiol yn dweud bod un yn uchel a'r llall yn isel. Fodd bynnag, beth am wledydd rhwng y ddwy enghraifft eithafol hyn? Mae continwwm yn caniatáu i ni gymharu datblygiad gwledydd â'i gilydd yn hytrach na defnyddio termau absoliwt o fod yn un peth neu'n beth arall. [4]



3 Gwerthuswch fanteision ac anfanteision defnyddio'r MDD i fesur datblygiad cymdeithasol. [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Disgrifiad manwl o'r manteision a'r anfanteision a gwerthusiad clir</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Rhoi manteision ac anfanteision a rhywfaint o werthuso</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Rhoi rhai o fanteision neu anfanteision defnyddio'r MDD i fesur datblygiad cymdeithasol</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r MDD. Dim gwerthuso</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Efallai y bydd yr ymgeiswyr yn diffinio beth yw'r MDD cyn mynd ymlaen i roi manteision ac anfanteision. Nid yw hyn yn ofynnol gan y cwestiwn, ond byddai'n helpu eu hesboniad</p> <p>Ar gyfer Band 4, mae angen gwerthusiad clir</p> |

Mae'r mynegrif datblygiad dynol (MDD) yn enghraifft o ddangosydd datblygiad cymhleth oherwydd mae'n cyfuno nifer o ffactorau datblygiad eraill (nifer cyfartalog y blynyddoedd yn yr ysgol, cyfraddau llythrennedd, IGC y pen a disgwyliaid oes), yn hytrach na dangosydd unigol fel edrych ar gyfraddau llythrennedd yn unig. Mantais defnyddio'r MDD yw ei fod yn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o ddatblygiad cymdeithasol cyffredinol y wlad yn hytrach na chanolbwyntio ar un ffactor. Er enghraifft, efallai y bydd gwlad wedi buddsoddi'n drwm yn ei system addysg ond nid mewn datblygu diwydiant a chysylltiadau masnach. Felly, drwy edrych ar gyfraddau llythrennedd yn unig, efallai y bydden ni'n meddwl bod datblygiad cymdeithasol y wlad wedi gwella, ond wrth edrych ar y MDD efallai na fydd gwelliant o'r fath i'w weld. Y perygl wrth edrych ar ffactorau unigol yw ei bod hi'n hawdd camddechongli darlun sy'n dangos tuedd gan mai dim ond un gyfres o fesuriadau sy'n cael ei hystyried. Fodd bynnag, mae anfanteision i'r MDD hefyd gan nad yw'n ystyried unrhyw ddangosyddion iechyd heblaw disgwyliaid oes, nac unrhyw faterion amgylcheddol. Felly, nid hwn yw'r unig fesur datblygiad cymdeithasol dylen ni ei ystyried. Ar y cyfan, felly, rwy'n meddwl bod y MDD yn offeryn gwerthfawr i asesu datblygiad cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ddylid ei ddefnyddio ar ei ben ei hun, ond ar y cyd â dangosyddion eraill. [7]



Tudalen 129

‘Mae cael gwared ar lafur plant yn ffactor allweddol yn natblygiad pellach gwledydd De Asia ac Affrica is-Sahara.’ I ba raddau rydych chi’n credu bod hyn yn wir? [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am ddulliau i gael gwared ar lafur plant yn y ddwy ardal. Ystyried i ba raddau</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth am ddulliau i gael gwared ar lafur plant yn y ddwy ardal. Efallai y bydd ystyried i ba raddau yn wan neu ar goll</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am ddulliau i gael gwared ar lafur plant mewn un ardal. Efallai y bydd y disgrifiadau’n fyr</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol am ddulliau i gael gwared ar lafur plant. Efallai na fydd yn benodol i unrhyw ardal</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw’r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Mae angen i ymgeiswyr ystyried llafur plant yn Ne Asia a hefyd yn Affrica is-Sahara, ynghyd â’r datblygiad cymharol yn y ddwy ardal</p> |

Wrth ystyried datblygiad pellach mewn rhannau o’r byd fel Affrica is-Sahara a De Asia, byddem yn naturiol yn gobeithio gweld lleihad o ran faint o lafur plant sy’n digwydd. Yn Affrica is-Sahara, gall llafur plant ddigwydd ar ffurf plant yn helpu i gasglu dŵr a choed tân i’w teulu, sy’n gallu golygu cerdded am filltiroedd bob dydd yn cludo defnyddiau trwm. Mae’n debyg na fyddai llawer o deuluoedd yn y rhan hon o’r byd yn gweld hyn fel llafur plant, ond fel rôl hanfodol o fewn y teulu neu’r pentref er mwyn goroesi. Yn Ne Asia, mae rhai plant yn gweithio mewn ffatrioedd i gynhyrchu dillad i gwmnïau Gorllewinol. Eto, efallai na fyddai eu teuluoedd yn gweld hyn fel llafur plant, ond fel ffynhonnell incwm hanfodol i gynnal eu teulu. Fodd bynnag, er bod y safbwyntiau hyn yn amlwg yn ddealladwy, mae hefyd yn wir na all gwlad ddatblygedig orfodi plant i wneud tasgau sy’n eu hatal rhag cael addysg. Felly, rwy’n cytuno â’r gosodiad y dylid cael gwared ar lafur plant er mwyn i’r rhannau hyn o’r byd ddatblygu ymhellach, ond mae arnynt angen cymorth i wneud hyn. [8]

Tudalen 131

1 Beth yw ystyr y term ‘cyfradd marwolaethau babanod’? [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|-------------------------------------|--|
| Rhowch 1 marc am bob gosodiad cywir | Nifer marwolaethau babanod o dan un flwydd oed i bob 1000 o enedigaethau byw [1], mae’n ddangosydd ar gyfer iechyd gwlad [1] |

Cyfradd marwolaethau babanod yw nifer marwolaethau plant o dan un flwydd oed mewn gwlad i bob 1,000 o enedigaethau byw. [1]



2 Pam mae hwn yn fesur pwysig o ddatblygiad? [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| Rhowch 1 marc am reswm a marc arall am ymhelaethu ar y rheswm hwnnw, am hyd at dri rheswm | Mae'n rhoi dangosydd o iechyd gwlad o'i chymharu â gwledydd eraill [1], mae'n rhoi syniad o faint sy'n cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau iechyd [1], mae'n gallu mesur llwyddiant rhaglenni brechu Sefydliad Iechyd y Byd [1], mae'n gallu dangos sut mae gwlad yn blaenoriaethu gwario ar iechyd [1] |

Mae'r mesur datblygiad hwn yn bwysig oherwydd os ydyn ni'n meddwl bod gwlad yn ddatblygedig, ddylai niferoedd mawr o'r boblogaeth ddim bod yn marw cyn cyrraedd un flwydd oed. Mae'n ddangosydd ar gyfer pa mor iach yw'r wlad – pa mor iach yw'r mamau beichiog a hefyd y gofal meddygol mae plant yn ei gael ar ôl cael eu geni. Mae hefyd yn gallu dangos faint o arian sy'n cael ei wario ar ofal iechyd mewn gwlad, sy'n dangos gwerth y boblogaeth i'r llywodraeth. [3]

3 Esboniwch pam mae naill ai malaria neu HIV yn anodd ei reoli yn Affrica is-Sahara. [6]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| <p>Band 3 (5–6 marc): Disgrifiad manwl o'r ffactorau sy'n ei gwneud hi'n anodd rheoli'r clefyd yng nghyd-destun Affrica is-Sahara</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Disgrifiad fanwl o leiaf un ffactor sy'n ei gwneud hi'n anodd rheoli'r clefyd. Cyfeirio at gyd-destun is-Sahara, ond efallai mai dim ond yn fyr</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Sôn am ffactorau sy'n ei gwneud hi'n anodd rheoli'r clefyd, ond heb lawer o esboniad. Esboniad mwy generig</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | Ar gyfer Band 3, mae'n debyg y bydd ymgeiswyr yn trafod mwy nag un ffactor sy'n ei gwneud hi'n anodd rheoli'r clefyd dan sylw, a bydd hyn yn glir yng nghyd-destun is-Sahara Efallai y byddant yn sôn am strategaethau gan gynnwys gallu mosgitos i wrthsefyll pryfleiddiaid, cyllido, diffyg cyffuriau ar gael, stigma ac ati |

Mae'n anodd rheoli HIV yn Affrica is-Sahara am nifer o resymau. Y cyntaf yw diffyg addysg. Yn aml, dydy pobl yn Affrica is-Sahara ddim wedi cael addysg am ledaeniad y clefyd na'r dulliau o atal pobl rhag dal y clefyd. Hefyd, efallai na fydd llawer o ddulliau atal cenhedlu ar gael – mae'r rhain yn gallu helpu i atal ledaeniad y clefyd – felly hyd yn oed os yw pobl wedi cael eu haddysgu am fuddion defnyddio dulliau atal cenhedlu, mae llawer o ardaloedd yn Affrica is-Sahara'n methu eu defnyddio nhw gan nad ydyn nhw ar gael. Mae stigma yn anhawster arall. Dydy llawer o bobl ddim eisiau cael prawf am haint HIV am eu bod nhw'n teimlo y gallai hynny achosi stigma ac achosi i'w pentrefi eu gwrthod nhw. Felly, os ydyn nhw neu bobl eraill maen nhw'n eu hadnabod yn cludo'r haint, fyddan nhw ddim yn cymryd rhagofalon i'w atal rhag lledaenu. [6]



4 Disgrifiwch yr ymatebion rhyngwladol i naill ai malaria neu HIV. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| Rhowch 1 marc am bob gosodiad dilys a marc arall am ymhelaethu ar y disgrifiad | <p>Malaria: Annog pobl i ddefnyddio rhwydi gwely wedi'u trin â phryfleiddiaid [1], atal pobl rhag cael eu brathu [1]</p> <p>Mae elusennau'n darparu rhwydi i gymunedau tlawd agored i niwed [1], oherwydd bod diffyg arian i brynu rhwydi [1]</p> <p>Datblygu cyffuriau newydd [1], i frwydro yn erbyn rhywogaethau sy'n gallu gwrthsefyll cyffuriau</p> <p>HIV: Rhaglen addysg [1], i leihau nifer yr heintiadau newydd [1]</p> <p>Sgrinio menywod beichiog [1], er mwyn gallu trin babanod sy'n cael eu geni â'r haint yn gynt [1]</p> <p>Datblygu cyffuriau newydd [1], i arafu datblygiad y firws [1]</p> |

Mae'r ymateb rhyngwladol i malaria yn canolbwyntio'n bennaf ar atal pobl rhag cael eu brathu gan y mosgitos sy'n cludo ac yn lledaenu'r clefyd. Mae'r prif elusennau, ynghyd â Sefydliad Iechyd y Byd, wedi canolbwyntio ar ddarparu rhwydi gwely sydd wedi'u trin â phryfleiddiaid i gymunedau agored i niwed. Mae'r rhain yn amddiffyn pobl wrth iddynt gysgu i'w hatal rhag cael eu brathu a dal y clefyd. Mae llawer o fuddsoddiad hefyd wedi'i roi i ddatblygu brechiadau newydd i atal pobl rhag dal y clefyd. Mae angen ymchwil parhaus i gyffuriau newydd oherwydd mae rhai ffurfiau ar y clefyd yn dod i allu gwrthsefyll cyffuriau. [4]



Tudalen 133

‘Yn yr unfed ganrif ar hugain, dulliau gweithredu o’r gwaelod i fyny yn hytrach nag o’r top i lawr yw’r ffordd ymlaen er mwyn cyflymu datblygiad yn Affrica is-Sahara.’ I ba raddau rydych chi’n cytuno â’r gosodiad hwn? [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â manteision dulliau gweithredu o’r gwaelod i fyny yn hytrach nag o’r top i lawr a chysylltiad clir â sut maen nhw’n cyflymu datblygiad. Cyd-destun is-Sahara yn glir ac ymdrin ag i ba raddau</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â manteision dulliau gweithredu o’r gwaelod i fyny a sut maen nhw’n cyflymu datblygiad. Efallai na fydd sôn am ddulliau gweithredu o’r top i lawr. Rhyw gyfeiriad byr at Affrica is-Sahara</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â dulliau gweithredu o’r gwaelod i fyny a chysylltiad sylfaenol â sut maen nhw’n cyflymu datblygiad. Efallai y bydd y cyd-destun wedi’i awgrymu</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth sylfaenol am ddulliau gweithredu o’r gwaelod i fyny a chysylltiad sylfaenol â chyflymu datblygiad</p> <p>Dim band (0 marc): Rhwch 0 marc os yw’r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddisgrifio dull gweithredu o’r gwaelod i fyny ac yn y bandiau uchaf dylid ei gymharu â dulliau gweithredu o’r top i lawr. Er enghraifft, gallai ymgeiswyr gymharu llwyddiant pypiau llaw sy’n cael eu cynnal a’u cadw gan aelodau’r pentref sy’n defnyddio’r pwmp â phrosiectau peirianeg ar raddfa fawr fel Argae Kaste</p> |

Mae dulliau gweithredu o’r gwaelod i fyny ar gyfer datblygiad yn Affrica is-Sahara yn ffordd dda o helpu’r ardal i ddatblygu. Mae dulliau gweithredu o’r gwaelod i fyny yn golygu projectau y mae cymunedau lleol yn eu cynllunio a’u harwain i helpu’r ardal leol. O ganlyniad i ymwneud â rhoi’r cynllun ar waith, mae’r gymuned leol yn fwy tebygol o’i helpu i lwyddo. Un enghraifft o hyn yw’r elusen WaterAid yn helpu cymunedau gwledig i osod pwmp llaw ym mhentrefi Ethiopia ac yn hyfforddi aelodau’r pentref i gynnal a chadw ac atgyweirio’r pwmp. Mae hyn yn wahanol i gynlluniau o’r top i lawr sy’n fwy tebygol o fod yn gynlluniau drud a mawr iawn a weithredir gan lywodraethau cenedlaethol. Dydy’r cynlluniau hyn ddim fel arfer yn cynnwys cymunedau lleol – maen nhw’n cael eu ‘gorfodi’ arnynt yn hytrach na’u cynnwys nhw yn y broses benderfynu. Mae datblygu Argae Kaste yn Lesotho yn enghraifft o gynllun o’r top i lawr. Bwriad y project hwn hefyd yw gwella’r cyflenwad dŵr. Fodd bynnag, cafodd rhai cymunedau lleol eu dinistrio wrth greu’r argae, felly doedden nhw ddim yn elwa o’r datblygiad hwn. Ar y llaw arall, mae datblygiadau o’r gwaelod i fyny’n gwneud mwy i ddiwallu anghenion y bobl leol gan eu bod nhw’n ffocysu ar anghenion y gymuned leol ac yn fwy cynaliadwy. Mae hyn felly yn creu llawer mwy o gyfleoedd i gymunedau unigol i ddatblygu eu pentrefi eu hunain. Felly, ar y cyfan rwy’n cytuno â’r gosodiad hwn. Hyd yn oed os yw’n ymddangos bod projectau ar raddfa fawr o’r top i lawr yn cefnogi’r rhan fwyaf o boblogaeth gwlad, y projectau ar raddfa fach sy’n cefnogi cymunedau unigol. [7]



Thema 8

Tudalen 137

1 Beth mae'r term 'prynwriaeth' yn ei olygu i chi? [1]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--------------------------------|---|
| Rhowch 1 marc am yr ateb cywir | Y syniad ei fod yn beth da os yw pobl yn prynu nifer cynyddol o nwyddau neu wasanaethau [1] |

Prynwriaeth yw'r syniad ei fod yn beth da os yw pobl yn prynu symiau mawr o gynhyrchion gan fod hyn yn cynhyrchu mwy o fasnach fyd-eang. [1]

2 Esboniwch pam mae un bïom rydych chi wedi ei astudio yn cael ei ddinistrio oherwydd prynwriaeth. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| <p>Band 2 (3–4 marc): Rhoi rhesymau dros ddinistrio'r bïom a chysylltiad clir â phrynwriaeth fel yr achos</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Rhoi rhai rhesymau dros ddinistrio'r bïom ond y cysylltiad â phrynwriaeth yn wan neu ar goll</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Bydd yr ateb yn dibynnu ar y bïom sy'n cael ei ddefnyddio. Prif ffocws ateb Band 2 fyddai'r cysylltiad rhwng prynwriaeth a'r hyn sy'n achosi'r dinistr</p> <p>Enghraifft: dinistrio coedwig law drofannol yn Borneo er mwyn gallu plannu planhigfeydd olew palmwydd i gyfrannu at y farchnad gynyddol ar gyfer y cynnyrch hwn</p> |

Mae deietau Gorllewinol yn cynnwys swm cymharol fawr o gig coch. Er mwyn cynhyrchu digon o gig eidion, mae angen bwydo buchesi mawr. Er mwyn bwydo'r buchesi hyn, mae darnau mawr o goedwig law'n cael eu datgoedwigo i roi lle i'r gwartheg bori. Ar ôl i'r gwartheg symud ymlaen, mae'r tir wedi'i gywasgu a'r goedwig law'n methu tyfu'n ôl, felly mae'r bïom wedi'i ddinistrio. [4]



3 'Mae dinistrio ecosystemau yn angenrheidiol os yw cyd-ddibyniaeth fyd-eang i barhau.' I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad hwn? [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am y gyd-ddibyniaeth fyd-eang rhwng gwledydd am fwyd ac adnoddau. Cysylltiad clir rhwng y galw am gynnyrch mewn un wlad a dinistrio ecosystem mewn gwlad arall. Sôn am i ba raddau</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am y gyd-ddibyniaeth fyd-eang rhwng gwledydd am fwyd ac adnoddau. Cysylltiad rhwng y galw am gynnyrch mewn un wlad a dinistrio ecosystem mewn gwlad arall. Sôn am i ba raddau'n wan neu ar goll</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth am y gyd-ddibyniaeth fyd-eang rhwng gwledydd am fwyd ac adnoddau. Cysylltiad gwan rhwng y galw am gynnyrch mewn un wlad a dinistrio ecosystem mewn gwlad arall</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol am y gyd-ddibyniaeth fyd-eang rhwng gwledydd am fwyd ac adnoddau</p> <p>Dim band (0 marc): Rhwch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Bydd yr ateb yn dibynnu ar yr ecosystem mae'r ymgeisydd yn ei disgrifio. Rhaid rhoi cysylltiad clir rhwng pam mae'n cael ei dinistrio a dewis defnyddwyr. Y term gorchymyn yn y cwestiwn yw i ba raddau rydych chi'n cytuno, felly rhaid ateb hyn hefyd i gyrraedd Band 4</p> |

Wrth i wledydd ddatblygu, maen nhw'n creu cysylltiadau masnach â gwledydd eraill ac o ganlyniad, maen nhw'n gyd-ddibynnol ar ei gilydd. I gynhyrchu'r fasnach hon, mae angen i wledydd naill ai ddiwydianeiddio neu ddatblygu busnesau amaethyddol fel bod ganddyn nhw gynhyrchion i'w gwerthu. Bydd y busnesau hyn yn defnyddio tir, a gall hyn arwain at ddinistrio ecosystemau. Er enghraifft, mae cynhyrchu olew palmwydd yn Borneo wedi ychwanegu llawer at economïau'r tair gwlad ac wedi cynorthwyo eu datblygiad. Mae llawer o gwmnïau Gorllewinol yn dibynnu ar brynu'r olew hwn er mwyn gallu ei ddefnyddio yn eu cynhyrchion a gwneud elw. Mae hyn felly'n arwain at gyd-ddibyniaeth rhwng gwledydd, ond hefyd at ddinistrio'r ecosystem naturiol (coedwigoedd glaw trofannol). Fodd bynnag, dydw i ddim yn cytuno'n llwyr â'r gosodiad hwn oherwydd gellid taro cytundebau fel cyfnewid dyled am natur i gyfyngu ar faint ffermydd olew palmwydd i sicrhau na chaiff darnau newydd o goedwig law eu dinistrio. Felly, mae cyd-ddibyniaeth yn gallu dinistrio ecosystemau, ond gallwn ni reoli hyn mewn ffordd gynaliadwy.[7]



Tudalen 141

- 1 Rhowch ddwy ffordd y mae amaeth-fusnesau yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd. [2]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|---|
| Rhowch 1 marc am bob gosodiad cywir, hyd at uchafswm o 2 marc | Mae cemegion fel chwynladdwyr, pryfleiddiaid a gwrteithiau'n cael eu defnyddio ar ddarnau mawr o dir [1], mae gwrteithiau'n gallu achosi ewtroffigedd mewn afonydd [1], bydd defnyddio peiriannau mawr yn cywasgu'r pridd [1] |

Dwy ffordd y mae amaeth-fusnesau yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd yw drwy ddefnyddio gwrteithiau artiffisial sy'n gallu achosi ewtroffigedd mewn afonydd, a drwy gael gwared ar wrychoedd i greu lle mwy i ffermio, sy'n gallu lleihau bioamrywiaeth mewn ardaloedd gwledig. [2]

- 2 Esboniwch sut mae gwaredu gwastraff yn cael effaith ar yr amgylchedd. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|---|--|
| Rhowch 1 marc am bwynt dilys a marc arall am esbonio sut mae'n effeithio ar yr amgylchedd | Bydd rhyddhau nwyon tŷ gwydr [1] yn cynyddu'r effaith tŷ gwydr [1] Mae tipio anghyfreithlon [1] yn achosi llygredd gweledol [1] Llygru pridd/dŵr [1] drwy ryddhau cemegion mewn safleoedd tirlenwi [1] Mae e-wastraff yn cynnwys defnyddiau peryglus [1], er enghraifft mercwri [1] |

Mae gwaredu gwastraff yn gallu effeithio ar yr amgylchedd mewn sawl ffordd. Os caiff y gwastraff ei anfon i safle tirlenwi, yn gyntaf mae'n golygu dinistrio'r ecosystem naturiol ar ddarnau mawr o dir er mwyn gallu claddu sbwriel. Yn ail, mae'r sbwriel hwn, mewn blynyddoedd i ddod pan mae'n dadelfennu, yn gallu rhyddhau cemegion peryglus i'r pridd neu nwyon tŷ gwydr fel methan i'r atmosffer. Bydd llosgi gwastraff hefyd yn rhyddhau'r nwyon hyn i'r atmosffer. [4]



3 Disgrifiwch yr effeithiau tymor hir y mae newid hinsawdd yn eu cael ar y DU. [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|--|
| <p>Band 2 (3–4 marc): Disgrifio mwy nag un effaith dymor hir</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Disgrifiad byr o un neu fwy o effeithiau newid hinsawdd, heb fod yn rhai tymor hir o reidrwydd</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Efallai y bydd yr ymgeiswyr yn disgrifio effeithiau fel lefelau'r môr yn codi a cholli cymunedau ar dir isel, cyfle i dyfu cnydau newydd mewn ardaloedd fel de'r DU, colli rhai rhewlifoedd a rhai rhannau o'r capiau iâ yn barhaol ac ati.</p> |

Mae llawer o effeithiau newid hinsawdd sy'n debygol o fod yn rhai tymor hir. Mae lefelau'r môr yn codi, er enghraifft, yn debygol o fod yn effaith dymor hir gan fod y ddŵr ychwanegol wedi dod o'r rhewlifoedd ac nawr yn cael ei storio yn y cefnfor, gan godi ei lefel. Mae pobl yn mudo oherwydd bod yr ardaloedd lle maen nhw'n byw nawr yn mynd yn rhy anodd i fyw ynddynt hefyd yn debygol o fod yn effaith dymor hir, oherwydd mae sychderau sy'n para'n hirach yn golygu na fydd rhai rhannau o Affrica yn gallu cynnal pobl mwyach. Bydd llifogydd parhaol oherwydd bod lefel y môr yn codi hefyd yn cael effeithiau tymor hir oherwydd eto bydd angen i bobl fudo'n barhaol. [4]

4 Sut gallai ffordd o fyw pobl newid yn y dyfodol mewn byd cynhesach? [4]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| <p>Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am sut bydd byd cynhesach yn achosi newid i ffordd o fyw pobl</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol am sut bydd byd cynhesach yn achosi newid i ffordd o fyw pobl</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw'r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Ar gyfer Band 2, bydd yr ymgeiswyr yn gallu dangos cadwyn o resymu i gysylltu'r newid yn y ffordd o fyw â newid hinsawdd</p> <p>Mae ystod eang o atebion posibl allai gynnwys mudo i ardaloedd/gwledydd eraill, bwyta bwyd gwahanol, defnyddio mwy o aerdymheru yn y DU, mwy o frechiadau rhag clefydau newydd</p> |

Os ydych chi'n byw mewn ardal sydd ar dir isel, mae'n debygol iawn y bydd byd cynhesach yn effeithio arnoch chi. Bydd tymheredd cynhesach yn achosi i'r capiau iâ doddi a bydd hyn yn golygu y bydd cyfaint mwy o ddŵr yn y cefnforoedd ac felly y bydd lefel y môr yn codi. Bydd hyn yn golygu bod ynysoedd fel y Maldives dan fygythiad o gael eu colli'n llwyr, felly bydd angen i bobl o'r ynysoedd hyn fudo'n barhaol, sy'n cael effaith fawr ar eu ffordd o fyw. Yn y DU, efallai y bydd angen i ffordd o fyw pobl newid os yw tymereddau'n codi oherwydd efallai y bydd angen iddynt adeiladu tai newydd ag aerdymheru ac ati.[4]



Tudalen 144

‘Cyfnewid dyled-am-natur yw’r strategaeth amgylcheddol fwyaf effeithiol i reoli cynefinoedd a bioamrywiaeth.’ I ba raddau rydych chi’n cytuno â hyn? [8]

| Sail resymegol | Atebion a ddisgwylir |
|--|---|
| <p>Band 4 (7–8 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am ba mor effeithiol yw cyfnewid dyled-am-natur o ran rheoli cynefinoedd a bioamrywiaeth. Bydd yr ymgeisydd yn cyfeirio at strategaethau eraill er mwyn ateb y rhan ‘fwyaf effeithiol’ o’r cwestiwn. Rhaid nodi i ba raddau er mwyn cyrraedd Band 4</p> <p>Band 3 (5–6 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am ba mor effeithiol yw cyfnewid dyled-am-natur o ran rheoli cynefinoedd a bioamrywiaeth. Efallai y bydd y cyfeiriad at strategaethau eraill ar goll neu’n wan, ac efallai na fydd yr ateb yn rhoi sylw i ‘i ba raddau’</p> <p>Band 2 (3–4 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth am ba mor effeithiol yw cyfnewid dyled-am-natur o ran rheoli cynefinoedd a bioamrywiaeth</p> <p>Band 1 (1–2 marc): Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol am gyfnewid dyled-am-natur</p> <p>Dim band (0 marc): Rhowch 0 marc os yw’r ateb yn gwbl amherthnasol</p> | <p>Disgwylir i’r rhan fwyaf o ymgeiswyr ddefnyddio astudiaeth achos i ateb y cwestiwn hwn. Ar gyfer Band 4, mae angen i’r ymgeiswyr gysylltu cyfnewid dyled-am-natur â rheoli cynefinoedd yn effeithiol. Bydd yr ymgeiswyr gorau’n rhoi disgrifiad byr o strategaeth amgylcheddol arall er mwyn gallu ateb y rhan ‘fwyaf effeithiol’ o’r cwestiwn.</p> <p>Gallai enghreifftiau gynnwys project Calon Borneo UDA ac Indonesia, gwaith cadwraeth Brasil ac UDA yng nghoedwig law arfordir yr Iwerydd, ecosystemau Cerrado a Caatinga.</p> |

Cytundebau rhwng gwledydd mwy cyfoethog a gwledydd mwy tlawd yw cyfnewid dyled-am-natur. Mae’r wlad dlawd yn cytuno i wario arian ar gadwraeth ecosystem werthfawr a’r wlad gyfoethog yn canslo rhan o ddyled y wlad dlawd iddi. Un enghraifft o hyn yw UDA yn trosi \$21 miliwn o ddyled Brasil yn gronfa i warchod coedwigoedd glaw trofannol. Mae Brasil yn defnyddio’r arian hwn i gefnogi cadwraeth a hybu bywoliaeth pobl sy’n byw yn ardaloedd y coedwigoedd dan fygythiad. Mae hyn yn fath da o strategaeth oherwydd mae’n cymell y wlad dlawd i warchod ardaloedd oherwydd os ydyn nhw’n cadw at y cytundeb byddan nhw’n arbed arian ar dalu dyledion yn ôl. Dydy technegau rheoli ecosystemau eraill, fel coridor bywyd gwyllt, ddim yn rhoi cymaint o gymhelliad oherwydd bydd yn atal datblygiad pellach yn y rhan hon o’r wlad. Darnau o dir sy’n caniatáu i anifeiliaid gwyllt symud o un ecosystem i un arall yw coridorau bywyd gwyllt. Dydy hyn ddim o reidrwydd yn rhoi unrhyw fudd ariannol i’r wlad, felly dydy’r cymhelliad ddim mor gryf. Felly, rwy’n cytuno’n gryf bod cytundebau cyfnewid dyled-am-natur yn un o’r ffyrdd mwyaf effeithiol o reoli cynefinoedd a bioamrywiaeth oherwydd mae’r wlad lle mae’r ecosystem dan fygythiad yn buddsoddi mewn sicrhau bod cadwraeth yn digwydd. [8]